

# wavehill

Social and economic research  
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

[wavehill.com](http://wavehill.com)

## Gwerthusiad o'r Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: gwaddol cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn ysgolion a gymerodd ran

Medi 2023



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

## Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

## Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Twitter: [@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)

## Mwy o wybodaeth

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

## Awduron yr adroddiad

Eddie Knight, Tanwen Grover, Endaf Griffiths

Dyddiad: Medi 2023

# Rhestr o dalfyriadau

Acronym	
CA	Cyfnod Allweddol
HMS	Hyfforddiant Mewn Swydd
MDPh	Maes Dysgu a Phrofiad
SSAMIS	Social Support and Migration in Scotland

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	1
1.1	Y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau .....	1
1.2	Dulliau Gwerthuso .....	2
2.	Y Gwaddol i Ysgolion.....	5
2.1	Effeithiau ar yr Ysgolion .....	5
2.2	Rôl Creadigrwydd.....	8
2.3	Lledaenu.....	13
2.4	Cysylltiadau â'r Sector Celfyddydol a Chreadigol .....	14
2.5	Gwelliannau Posibl.....	17
3.	Y Gwaddol i Artistiaid .....	18
4.	Astudiaethau Achos Ysgolion .....	25
4.1	Astudiaeth Achos 1: Ysgol Harri Tudur .....	25
4.2	Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn .....	28
4.3	Astudiaeth Achos 3: Ysgol Gynradd Gymunedol Pontffranc .....	31
4.4	Astudiaeth Achos 4: Ysgol Tudno.....	34
4.5	Astudiaeth Achos 5: Ysgol Aberconwy.....	36
4.6	Astudiaeth Achos 6: Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.....	40
4.7	Astudiaeth Achos 7: Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff .....	43
5.	Casgliadau.....	48
5.1	Cwestiynau Gwerthuso ar gyfer Ysgolion .....	48
5.2	Cwestiynau Gwerthuso ar gyfer Artistiaid ac Ymarferwyr Creadigol .....	50
	Atodiadau.....	52

# 1. Cyflwyniad

## Pwyntiau allweddol

- Nod rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yw gwella addysg y celfyddydau yn ysgolion Cymru, gan annog cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant.
- Roedd dwy elfen allweddol i fersiwn 2015 i 2020 o'r rhaglen: cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a oedd yn canolbwyntio ar ddulliau dysgu creadigol i wella cyrhaeddiad addysgol, a Chynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru Gyfan, a oedd yn meithrin cydweithrediad rhwng athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau diwylliannol.
- Mae'r adroddiad hwn yn archwilio effaith barhaus elfen cynllun yr Ysgolion Greadigol Arweiniol y rhaglen wreiddiol, gan werthuso parhad arferion a ddatblygwyd drwy'r cynllun dros amser.
- Roedd y dull gwerthuso yn cynnwys cynnal arolygon o ysgolion ac ymarferwyr creadigol a fu'n ymwneud â chyfnodau cynnar y cynlluniau ac astudiaethau achos o saith ysgol er mwyn edrych yn fanylach ar ddealltwriaeth a gwersi i'w dysgu yn ymwneud ag effaith barhaus y cynllun.

## 1.1 Y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Ariannwyd y rhaglen ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, gyda chyfanswm buddsoddiad o tua £20m. Er bod ei bod yn parhau, cynhaliwyd fersiwn wreiddiol y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau dros y pum mlynedd rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020. Nod y rhaglen oedd cryfhau ac ymestyn y ddarpariaeth addysg gelfyddydol mewn ysgolion ledled Cymru, ac annog cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant. Darparodd ystod eang o brofiadau a phrosiectau o dan yr ymbarél dysgu creadigol i gynorthwyo dysgu ar draws y cwricwlwm.

Roedd y rhaglen yn cynnwys dau llyn arloesol o weithgareddau addysgol. Y llyn cyntaf oedd cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a oedd yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol trwy ddulliau creadigol o ddysgu. Roedd yn cynnig hyfforddiant safonol wyneb yn wyneb ac yna prosiect dwys, pwrpasol yn yr ysgol, wedi'i gydgyhyrchu rhwng athrawon, dysgwyr ac artistiaid. Roedd y prosiectau'n amrywio o ysgol i ysgol, gan fod pob un yn ceisio ymateb i fater penodol ynghylch cyrhaeddiad ymhlith carfan benodol o ddysgwyr a nodwyd gan bob ysgol unigol.

Yr ail llyn oedd Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru Gyfan. Roedd hyn yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau wedi'u dylunio i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth yng Nghymru bartneru a chydweithio. Roedd hefyd yn ceisio cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael profiad o waith artistiaid o Gymru a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol yng Nghymru. Roedd elfennau'r llyn hwn yn cynnwys Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, porth ar-lein y Parth Dysgu Creadigol a Chronfa Profi'r Celfyddydau.

Rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020, ar draws ei dau llyn, fe wnaeth y rhaglen ymgysylltu â 1,237 o ysgolion ledled Cymru a'u cefnogi (83 y cant o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth). Roedd hyn yn cynnwys darparu amcangyfrif o 134,000 o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion, a 4,600 o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon.

Darparodd adroddiad gwerthuso Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau drosolwg manwl o effeithiau'r rhaglen ar athrawon ac ysgolion, dysgwyr ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol mewn perthynas â:

- Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd
- Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd
- Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau
- Newidiadau ym mherfformiad athrawon

Mae'r adroddiad atodol hwn yn archwilio effeithiau parhaol cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddeall i ba raddau y mae arferion a ddatblygwyd trwy eu rhan yn y cynllun yn dal yn amlwg ymhlith ysgolion ac artistiaid sawl blwyddyn yn ddiweddarach. Mae'n ceisio archwilio gwaddol y rhaglen ar ysgolion ac artistiaid / ymarferwyr creadigol i ddeall i ba raddau y mae rhan ysgolion yn y rhaglen yn dal i ddylanwadu ar arferion heddiw.

## 1.2 Dulliau Gwerthuso

### 1.2.1 Nodau'r Ymchwil

Pwrpas gwerthusiad y cyfnod gwaddol oedd profi dwy ddamcaniaeth:

**Damcaniaeth 1:** Mae effaith gadarnhaol cymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn parhau i fod yn amlwg o fewn yr ysgolion a gymerodd ran sawl blwyddyn ar ôl i'r ymyriad ddod i ben, yn enwedig o ran arferion addysgu ac integreiddio arferion creadigol i weithgareddau'r ysgol.

**Damcaniaeth 2:** Bu newid parhaus yn y ffordd y mae artistiaid (asiantau creadigol / ymarferwyr creadigol) a gymerodd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithredu, yn enwedig yn eu hymgysylltiad â'r sector addysg yng Nghymru.

Er mwyn profi'r damcaniaethau hyn, datblygwyd cyfres o gwestiynau gwerthuso:

#### Ar gyfer ysgolion

1. A yw athrawon o fewn yr ysgol wedi parhau â newidiadau i'w harferion addysgu a gyflwynwyd o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol?
2. A oes newidiadau wedi'u cyflwyno i'r ffordd y mae'r ysgolion yn gweithredu o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad? Os felly, beth yw'r newidiadau hynny?
3. Beth fu effaith unrhyw newidiadau a nodwyd ar yr ysgolion?

### Ar gyfer artistiaid:

4. A yw artistiaid wedi newid/addasu eu harferion gwaith mewn ffordd barhaus o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ymyriad hwn? Os felly, sut?
5. Beth fu effaith unrhyw newidiadau a nodwyd ar yr artistiaid dan sylw?

### 1.2.2 Methodoleg

Mabwysiadwyd dull dau gam ar gyfer y gwaith maes gydag ysgolion ac artistiaid a oedd yn cynnwys:

- **Cynnal Arolygon:** o ysgolion ac artistiaid a fu'n ymwneud â Chylchoedd 1 a 2 llinyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol;
- **Astudiaethau Achos:** gyda saith ysgol a fu'n ymwneud â Chylchoedd 1 a 2 llinyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

### Cynnal Arolygon

Dosbarthwyd yr arolwg ar-lein, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, i'r holl ysgolion a gymerodd ran yng Nghylchoedd 1 a 2 y cynllun. Dewiswyd ysgolion ac artistiaid Cylchoedd 1 a 2 gan fod hyn wedi caniatáu i nifer o flynyddoedd fynd heibio ers iddynt gymryd rhan yn y cynllun ac, felly, y gwaddol i'w archwilio.

Roedd yr arolwg yn fyw o ganol mis Mehefin i ganol mis Gorffennaf 2022. Roedd nifer yr ymatebion i'r arolwg yn dilyn yr e-bost cychwynnol yn isel, yn rhannol o leiaf am fod y manylion cyswllt wedi'u casglu beth amser yn ôl. Felly, aeth ein tîm ymchwil ati i ffonio'r holl ysgolion ar y rhestr o gyfranogwyr i (a) gwirio bod y manylion cyswllt yn gywir; a (b) annog ymateb i'r arolwg.

Hefyd, dosbarthodd Cyngor Celfyddydau Cymru holiadur ar-lein i artistiaid. Roedd yr arolwg yn fyw o ganol mis Mehefin tan ddechrau mis Medi 2022. Roedd hyn yn hirach na'r hyn a gynlluniwyd er mwyn caniatáu i nifer o negeseuon e-bost dilynol gael eu dosbarthu er mwyn annog mwy o ymateb.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion, cyfanswm y boblogaeth a'r gyfradd ymateb a gyflawnwyd ar gyfer arolwg yr ysgolion ac arolwg yr artistiaid. Ceir dadansoddiad manylach o nodweddion proffil yr ysgolion a'r artistiaid a ymatebodd yn yr Atodiad.

Tabl 1.1: Trosolwg o'r gyfradd ymateb

	Arolwg Ysgolion	Arolwg Artistiaid
Cyfanswm yr ymatebion	45	76
Poblogaeth	272	349
Cyfradd Ymateb	17 y cant	22 y cant

## Astudiaethau Achos

Gwnaeth ein tîm ymchwil ddewis wyth ysgol a chysylltu â nhw er mwyn cynnal astudiaeth achos. Defnyddiwyd samplu bwriadus i ddewis ysgolion yn seiliedig ar eu hymatebion i'r arolwg a sicrhau bod ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan.

Roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys trafodaethau gydag aelodau perthnasol o staff mewn ysgolion naill ai dros y ffôn neu drwy alwadau fideo. Diben cynnal astudiaethau achos oedd archwilio, yn fanylach, effeithiau parhaol rhan yr ysgolion yn llinynnau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r wyth astudiaeth achos wedi'u cynnwys yn [Adran 4](#) yr adroddiad hwn.

### 1.2.3 Cyfyngiadau

Fel y soniwyd uchod, roedd gwerthusiad y cyfnod gwaddol yn canolbwyntio ar effeithiau parhaus ymhlith y staff yn yr ysgolion a'r artistiaid (Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol) a fu'n ymwneud â chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Dylid nodi nad yw'r cam hwn o'r gwerthusiad yn archwilio cynaliadwyedd canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogwyd gan y cynllun.

Roedd y penderfyniad i beidio â chanolbwyntio ar yr effaith ar ddisgyblion yn deillio o gyfyngiadau ar y potensial i allu gwneud hynny mewn ffordd gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, o fewn adnoddau a data y cam olaf hwn o'r broses werthuso.

Mae cyfyngiadau hefyd o ran y cyfraddau ymateb a gafwyd i'r arolygon a oedd yn is na'r disgwyl. Dylid ystyried y gyfradd ymateb isel wrth ddehongli'r canfyddiadau. Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd yn rhoi cipolwg defnyddiol ar waddol cymryd rhan yn y cynllun o fewn yr ysgolion dan sylw.

Mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol bod y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn hunan-ddewis – dewisodd pob un ohonynt gymryd rhan. Mae gan hyn y potensial i gyflwyno gogwydd yn y data gan y gallai ymatebwyr gael eu dewis i gymryd rhan gan fod ganddynt rywbeth yr hoffent ei ddweud, boed yn dda neu'n ddrwg.



## 2. Y Gwaddol i Ysgolion

Mae'r adran hon yn archwilio gwaddol y cynllun Ysgolion Arweiniol Creadigol i ysgolion. Mae'n defnyddio tystiolaeth o arolwg yr ysgolion ac astudiaethau achos ac yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud ag effeithiau ar yr ysgol, ar arferion addysgu, ar ledaenu'r hyn a ddysgwyd, ar y Cwricwlwm i Gymru ac ar gysylltiadau rhwng ysgolion a'r sector celfyddydol a chreadigol ehangach.


### Pwyntiau allweddol

- Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn parhau i gael dylanwad cadarnhaol yn ysgolion yr arolwg sawl blwyddyn ar ôl cymryd rhan.
- Roedd y dylanwadau cadarnhaol hyn yn ymgorffori newidiadau mewn perthynas ag integreiddio arferion creadigol i gwricwlwm yr ysgol, newidiadau cadarnhaol mewn perthynas â datblygu sgiliau athrawon wrth gyflwyno gwersi a mwy o gydnabyddiaeth o sut mae modd defnyddio dulliau creadigol ar draws meysydd pwnc niferus.
- Dywedodd ysgolion fod dulliau addysgu wedi newid o ganlyniad i fod yn rhan o'r cynllun a bod mwy o ddefnydd o addysgeg ac arferion creadigol. Dywedwyd bod athrawon yn fwy parod i fentro, cofleidio methodolegau newydd, a meithrin meddwl creadigol ymhlith disgyblion.
- Roedd mwyafrif ysgolion yr arolwg yn cydnabod bod eu rhan yn y cynllun wedi eu hwyluso i fod yn barod ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Ystyriwyd bod y gwaith paratoi hwn yn amserol, gan alluogi ysgolion i gael dealltwriaeth gref o ddulliau creadigol sy'n cyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd. Roedd ysgolion yn llai abl i ddarparu enghreifftiau penodol o sut roedd y cynllun wedi helpu o ran y cwricwlwm newydd, er eu bod yn hyderus y byddai'n helpu yn y dyfodol.
- Amlygodd ysgolion sawl ffordd yr oedd yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun wedi'i ledaenu ymhlith ysgolion gan gynnwys diwrnodau HMS a digwyddiadau hyfforddi. Dywedwyd bod ymgysylltiad uniongyrchol athrawon mewn prosiect a nodiadau atgoffa ffisegol a osodwyd ar draws ysgolion hefyd yn effeithiol wrth helpu i ledaenu'r hyn a ddysgwyd.

### 2.1 Effeithiau ar yr Ysgolion

Yn gyffredinol, dangosodd yr arolwg fod rhan yr ysgolion yn y cynllun yn dal i gael effaith gadarnhaol flynyddoedd yn ddiweddarach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis y term gorau i ddisgrifio'r effaith gyffredinol yr oedd bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol yn ei chael ar eu hysgol ar y diwrnod y cynhaliwyd yr arolwg. Diben y cwestiwn oedd sefydlu a oedd cymryd rhan yn y cynllun sawl blwyddyn yn ôl wedi creu effaith a oedd yn dal yn amlwg yn yr ysgol.

Ffigur 2.1: Barn ymatebwyr ar yr effaith gyffredinol a gafodd bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol ar eu hysgol heddiw



Ffynhonnell: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=45

Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr er mwyn ystyried y rhesymau dros eu hymateb a chafodd y rhain eu codio'n thematig. Roedd y dadansoddiad yn dangos bod y rhai a atebodd naill ai 'cadarnhaol' neu 'gadarnhaol iawn' yn nodi'n amlaf y bu newidiadau i'r ffordd y mae'r ysgol yn ymdrin ag addysgu, dysgu ac asesu (n=16). Roedd enghreifftiau yn cynnwys sut roedd ysgolion wedi gwneud cynnydd tuag at roi arferion mwy creadigol ar waith ar draws y cwricwlwm; sut roedd staff addysgu wedi datblygu sgiliau yn ymwneud â chyflwyno gwersi; mwy o werthfawrogiad o ddefnyddio dulliau creadigol ar draws y cwricwlwm; a rôl creadigrwydd wrth hysbysu dulliau asesu'r ysgolion, er enghraifft trwy fabwysiadu Arferion Creadigol y Meddwl.

---

'Fe arweiniodd at ddealltwriaeth bod lle i greadigrwydd ym mhob maes pwnc a chan bob athro a bod creadigrwydd yn ganolog i'r broses addysgiadol.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Roedd ymatebion eraill yn amlygu pwysigrwydd a gwerth y dulliau a ddangoswyd i ysgolion drwy'r rhaglen (n=15). Roedd cymryd rhan yn y rhaglen wedi helpu ysgolion i werthfawrogi potensial gwreiddio'r celfyddydau ar draws y cwricwlwm ac mewn rhai achosion, bu'n gatalydd ar gyfer archwilio ac arbrosi yn y dyfodol wrth ymgorffori arferion creadigol ar draws yr ysgol.

---

'Fel Ysgol Arloesi, fe wnaethon ni ymuno â chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i hybu ein dealltwriaeth a'n haddysgeg o amgylch y celfyddydau. Roedd hyn yn sbardun ar gyfer dysgu a datblygiad ysgol gyfan i'r dyfodol.'

**Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Amlygwyd enghreifftiau o hyn yn ymarferol mewn nifer o'r astudiaethau achos a luniwyd gydag ysgolion. Roedd prosiect Ysgol Greadigol Arweiniol [Ysgol Harri Tudur](#) yn cynnwys athrawon pynciau craidd yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol. Er enghraifft, creodd dysgwyr mewn gwersi Saesneg fodelau o filwyr rhyfel i ddod â'u huned ar farddoniaeth Wilfred Owen yn fyw ac annog dysgwyr i deimlo empathi â'r emosiynau y byddai'r milwyr wedi'u teimlo. Yn dilyn y prosiect, defnyddiwyd y dull hwn i addysgu Macbeth trwy greu bwrdd gwledda ac wrth archwilio testun "Into the Wild".

Gwnaeth ysgolion hefyd amlygu effeithiau mewn perthynas â datblygiad staff (n=11) a'r effeithiau ar ddisgyblion (n=9). Roedd y sylwadau'n ymwneud â'r hyder a'r sgiliau a ddatblygodd athrawon a staff cymorth drwy fod yn Ysgol Arweiniol Greadigol a'r dylanwad parhaol a gafodd hyn ar addysgu a dysgu. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd y rôl bwysig a chwaraeodd yr ymarferwyr creadigol wrth rannu syniadau â staff a meithrin hyder ymhlith y staff; y ffocws cynyddol ar ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu creadigrwydd; a sut i fynd ati'n wahanol i gynllunio. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn adran 2.1.3, effeithiau ar addysgu, isod.

---

'Mae'r holl staff wedi cael amser gydag asiantau creadigol i ennill gwybodaeth a sgiliau newydd y mae modd eu defnyddio'n uniongyrchol yn yr ystafelloedd dosbarth. Caniatáu i Gynorthwywyr Addysgu fagu hyder yn eu galluoedd eu hunain a chaniatáu iddyn nhw weld ffyrdd i hwyluso'r dysgu i'n disgyblion.'

**Ysgol Greadigol Arweiniol**

'Roedd yn cynorthwyo athrawon a staff cymorth i weld sut y mae modd mynd i'r afael â gwahanol fathau o sesiynau, sut y gall dysgu dan arweiniad disgyblion fod yn gadarnhaol, ac nad i sesiynau'r 'celfyddydau' yn unig y mae addysgu creadigol yn berthnasol.'

**Ysgol Greadigol Arweiniol**

---


Amlygwyd sawl rheswm pam nad oedd ysgolion yn gweld unrhyw effeithiau parhaol (n=2) neu gymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol (n=3). Er enghraifft, mewn un ysgol roedd newid mewn uwch arweinyddiaeth yn ei gwneud yn anodd parhau ag agweddau ar y prosiectau. Roedd gan brosiect ysgol arall ffocws penodol ar ddisgyblion Anghenion Addysgol Arbennig, pontio a phrydau ysgol am ddim ac o ystyried nodau penodol y prosiect hwnnw, nid oedd yr hyn a ddysgwyd wedi'i gyflwyno'n ehangach ar draws ysgolion.

Wrth fyfyrto, dywedodd ysgol arall, er ei fod yn brofiad hynod gadarnhaol i ddisgyblion, na fu unrhyw effeithiau parhaol ar yr ysgol yn sgil bod yn rhan o'r cynllun. Cyfeiriwyd at COVID-19 hefyd fel rhwystr; fodd bynnag, roedd yr ymateb hwn yn gryno ac nid oedd yn rhoi manylion am y rhesymau penodol ynghylch sut yr effeithiodd COVID-19 yn negyddol ar gynnal y canlyniadau.

## 2.2 Rôl Creadigrwydd

Gofynnwyd i ysgolion a oedd bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol wedi newid rôl creadigrwydd yn eu hysgol mewn ffordd sy'n dal yn amlwg heddiw. Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn i'w gweld yn Ffigur 2.2 isod sy'n dangos bod 87 y cant o ysgolion yn teimlo ei fod wedi gwneud hynny.

Ffigur 2.2: A wnaeth bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol newid rôl 'creadigrwydd' yn eich ysgol mewn ffordd sy'n dal yn amlwg heddiw?



Ffynhonnell: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=45<sup>1</sup>

Cyfeiriodd ysgolion at y ffaith bod dulliau addysgu wedi newid yn yr ysgol ers ymwneud â'r rhaglen (n=16). Roedd hyn yn cynnwys ysgolion yn mabwysiadu dulliau newydd o gynllunio gwersi sy'n gynyddol yn cynnwys dulliau creadigol; llais y disgybl; ystyried creadigrwydd yn ganolog i'r broses addysgiadol; a sut mae modd ei ddefnyddio ar draws ystod o feysydd pwnc.

<sup>1</sup> Noder: Nid yw'r canrannau'n dod i gyfanswm o 100 y cant gan fod 1 ymatebydd wedi ateb 'ddim yn gwybod'.

---

'Dechreuodd pob adran yn yr ysgol gofleidio creadigrwydd a'r arferion creadigol ac mae hyn wedi cael effaith ddofn ar y polisi addysgegol presennol gyda chreadigrwydd wrth galon y dysgu ar draws yr ysgol.' **Ysgol Arweiniol Creadigol**

---

Roedd datblygiad staff hefyd yn thema gyffredin mewn perthynas â sut roedd rôl creadigrwydd wedi newid mewn ysgolion (n=9). Cyfeiriodd yr ymatebion at y lefelau hyder cynyddol ymhlith staff addysgu, sut roedd staff wedi ailddiffinio dehongliadau o greadigrwydd a sut roedd wedi atgyfnerthu'r ddealltwriaeth bod creadigrwydd yn rhan annatod o bob pwnc.


Roedd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod athrawon mewn rhai ysgolion (n=7) bellach yn cyflwyno mwy o weithgareddau creadigol nag o'r blaen a'i fod wedi arwain at well dealltwriaeth o'r rôl bosibl y gall creadigrwydd ei chwarae wrth gynorthwyo dysgu a deilliannau disgyblion (n=6). Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r arolwg i ba raddau yr oedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at athrawon unigol ac i ba raddau yr oedd y ddealltwriaeth well hon yn gyffredin ar draws yr holl staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu.

Lle'r oedd ysgolion yn teimlo nad oedd y rhaglen wedi effeithio ar rôl creadigrwydd, roedd hyn yn tueddu i fod o ganlyniad i'r gweithredu cyfyngedig a'r niferoedd cyfyngedig dilynol ar draws yr ysgol (n=3) a'r diffyg cyfle i ddatblygu prosiectau ymhellach ar ôl i'r cyfnod o ymwneud â'r cynllun ddod i ben (n=1). Caiff hyn ei ategu gan ganfyddiadau'r astudiaethau achos lle esboniodd ysgolion rai o'r heriau sydd ynghlwm wrth wreiddio arferion creadigol yn ehangach ar draws ysgolion. Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach yn [Adran 2.3](#), isod.

### 2.2.1 Effeithiau ar Addysgu

Mae Ffigur 2.3, dros y dudalen, yn dangos yr ymatebion pan ofynnwyd i ysgolion a oedd yr ymagwedd at addysgu yn wahanol yn yr ysgol heddiw o ganlyniad i'w rhan yn y rhaglen.

Ffigur 2.3: A yw'r ymagwedd at addysgu yn eich ysgol yn wahanol heddiw o ganlyniad i'ch cyfranogiad yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol?



Ffynhonnell: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=45<sup>2</sup>

Fel sy'n cael ei ddangos yn y ffigur, nododd y mwyafrif o ysgolion fod eu hymagwedd at addysgu wedi newid o ganlyniad i'w rhan yn y cynllun. Gofynnodd cwestiwn dilynol i'r ymatebwyr roi sylwadau ar ba mor eang y bu'r newidiadau hyn. Nododd mwyafrif yr ysgolion (n=25) fod y newidiadau wedi digwydd yn gyffredinol ar draws ysgolion gyda phump arall yn nodi bod y newidiadau hyn wedi digwydd yn bennaf ymhlith yr athrawon hynny a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun.

Yn fwyaf cyffredin, cyfeiriodd ysgolion at y ffaith bod y newidiadau'n ymwneud â'r cynnydd yn y defnydd o addysgeg greadigol (n=14). Roedd hyn yn cynnwys yr hyn a ddisgrifiodd ysgolion fel symudiad cyffredinol oddi wrth 'ddulliau traddodiadol', a allai fod wedi cynnwys defnyddio gwerslyfrau ac arddull darlith o gyflwyno, i ddull mwy ymarferol a oedd yn annog creadigrwydd ar draws sbectrwm o bynciau. Adroddodd ysgolion fod mwy o barodrwydd ymhlith athrawon i fentro, treialu dulliau newydd ac archwilio ffyrdd newydd i hwyluso meddwl yn greadigol mewn gwersi.

Er enghraifft, ysbrydolwyd un athro yn ysgol astudiaeth achos Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn gan arferion adrodd storïau o fewn prosiect llafaredd pan ddaeth yr ymarferydd i'r ysgol wedi gwisgo fel bod arallfydol. Yn ddiweddarach daeth yr athro i'r ysgol wedi gwisgo fel gwrach, gan aros yn eu cymeriad trwy gydol y dydd – rhywbeth na fyddent erioed wedi rhoi cynnig arno o'r blaen.

<sup>2</sup> Noder: Nid yw'r canrannau'n dod i gyfanswm o 100 y cant gan fod 1 ymatebydd wedi ateb 'ddim yn gwybod'.

Thema arall a nodwyd yn ymatebion yr ysgolion oedd cynnydd mewn dysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl, lle'r oedd disgyblion bellach yn cymryd mwy o berchnogaeth ar eu dysgu ac yn ymwneud yn fwyfwy gweithredol â phenderfyniadau. Er enghraifft, mewn un ysgol mae dysgu ar sail prosiect (dull addysgol lle mae dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau trwy brosiectau ymgysylltu sy'n ymwneud â heriau a phroblemau y gallent fod yn eu hwynebu yn y byd go iawn) bellach yn agwedd ganolog ar ddull gweithredu'r ysgol.

Dangosodd astudiaeth achos [Ysgol Harri Tudur](#) hefyd sut roedd yr ysgol wedi darparu mwy o ddewis i ddysgwyr yn eu dulliau addysgu ac asesu gydag enghreifftiau o sut y gallai dysgwyr ddewis a oeddent am gael eu hasesu drwy siarad o flaen y dosbarth neu'r athro neu drwy eu ffilmio eu hunain.

---

'Mae addysgeg greadigol wedi'i datblygu ymhlith nifer fawr o athrawon ac adrannau.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Roedd newidiadau addysgegol eraill yn cynnwys darparu mwy o brofiadau dysgu awyr agored i ddysgwyr; ymgysylltu mwy ag ymarferwyr arbenigol i wella'r profiad dysgu; mwy o ffocws ar lafared; a mwy o gyfleoedd i ddysgwyr fod yn gydweithredol ac yn annibynnol.

Amlygodd ysgolion effaith eu rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a sut roedd hyn wedi arwain at newidiadau i addysgu yn yr ysgol (n=8). Roedd yn gyffredin i sylwadau gyfeirio at yr hyder cynyddol ymhlith athrawon i gyflwyno mwy o gyfleoedd creadigol mewn gwersi, treialu pethau newydd a chamu allan o'u cylchoedd cysurus. Mae'n ymddangos bod y newidiadau i'r dulliau addysgegol sy'n cael eu disgrifio uchod wedi'u hategu gan newid ehangach yn hyder athrawon a chynnydd mewn gwybodaeth a sgiliau sydd wedi grymuso a galluogi athrawon i brofi a gweithredu dulliau creadigol.

Mae astudiaeth achos [Ysgol Aberconwy](#) yn amlinellu cymhellion yr ysgol i fod yn rhan o'r cynllun a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r gwaddol fyddai iddo o ran datblygu sgiliau athrawon. Mae eu profiad yn rhoi enghraifft o sut y mae modd manteisio i'r eithaf ar ddatblygiad athrawon trwy'r cynllun trwy ddefnyddio asiantau creadigol i weithio'n bennaf gyda staff addysgu (ynghylch cynllunio a chyflwyno) i helpu i newid agweddau a meddylfryd yn hytrach na gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion.

Lle'r oedd ysgolion yn teimlo nad oedd y dull addysgu mewn ysgolion yn wahanol heddiw o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun (n=9), rhoddwyd amrywiaeth o resymau. Roedd hyn yn cynnwys newid yn yr arweinyddiaeth; ystyried bod cymryd rhan yn cymryd gormod o amser; ac mai achosion unigol yw newidiadau i ddulliau addysgu yn hytrach na'u bod yn eang ar draws yr ysgol. Roedd ysgol arall yn teimlo, er bod bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol wedi cyfrannu at ymagwedd yr ysgol, nid y cynllun hwn yn unig oedd wedi dylanwadu ar eu hymagwedd at greadigrwydd ac addysgu.

Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson â chanfyddiadau'r astudiaethau achos a amlygodd heriau amrywiol mewn perthynas â sicrhau cynnydd eang yn y defnydd o dulliau creadigol a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y cynllun. Nododd ysgolion fod annog defnydd eang o'r dulliau, yn ymarferol, yn weithgaredd dwys o ran adnoddau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd sy'n tueddu i fod yn fwy ac yn gweithio'n llai aml rhwng adrannau. Roedd ysgolion hefyd yn ceisio gweithio tuag at flaenoriaethau amrywiol oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a chyfeiriwyd at hyn hefyd fel rhwystr i'r graddau yr oedd modd sefydlu arferion addysgu creadigol ar draws yr holl athrawon.

### 2.2.2 Cwricwlwm i Gymru

Roedd yn amlwg bod ymwneud â chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cynorthwyo ysgolion i ddylunio a gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd bron i bob ysgol (n=39) yn teimlo bod cymryd rhan yn y cynllun wedi eu helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Teimlai ysgolion fod eu cyfranogiad yn y cynllun yn amserol, gan alluogi'r ysgolion i feithrin eu dealltwriaeth a'u profiad o fabwysiadu dulliau creadigol a oedd yn cyd-fynd â'r pedwar diben sydd wedi'u nodi yn y Cwricwlwm i Gymru.<sup>3</sup>

Awgrymodd ysgolion fod eu cyfranogiad wedi helpu i ddatblygu hyder mewn perthynas â dulliau addysgegol newydd (fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod) a bod y profiad hwn yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Roedd yn galluogi ysgolion i deimlo'n gyfforddus ynghylch cymryd risgiau a darparodd safbwyntiau newydd ar addysgu.

Ar ôl cael y cyfle i archwilio a threalu dulliau newydd o addysgu pynciau trwy gyfryngau creadigol amrywiol (trwy gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol), dywedodd ysgolion eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm a oedd yn cynnwys gosod dysgu yng nghyd-destun bywyd go iawn, gan nodi cysylltiadau trawsgwricwlaidd, gosod iechyd a lles wrth galon y cwricwlwm a hybu cydweithio a datrys problemau.

---

'Mae dylunio ein cwricwlwm newydd wedi'i wneud yn haws gan ein bod eisoes yn gyfforddus ynghylch arbrofi â ffyrdd newydd o wneud pethau, edrych ar y cwricwlwm o wahanol safbwyntiau ac archwilio ffyrdd i gynnal gweithgareddau gyda dysgwyr sy'n eu herio ac sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ddatrys problemau a gweithio gyda'i gilydd yn gydweithredol. Mae'r elfennau hyn wedi bwydo i mewn i'n gwaith o gynllunio'r cwricwlwm dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

<sup>3</sup> Gweler: [Cwricwlwm i Gymru](#)



Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â phrofiadau'r ysgolion hynny lle cynhaliwyd astudiaethau achos. Fodd bynnag, pan gawsant eu hannog, roedd ysgolion yn llai abl i ddarparu enghreifftiau diriaethol o'r modd yr oedd eu rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi helpu i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Er i'r ysgolion ddweud bod egwyddorion y cynllun a'r cwricwlwm newydd yn cyd-fynd a bod synergedd amlwg rhyngddynt, roedd yn ymddangos bod ysgolion yn dal i ganfod eu traed o ran y cwricwlwm newydd ac felly'n methu, ar hyn o bryd, â rhoi enghreifftiau o hyn yn ymarferol. Er hyn, roeddent yn hyderus y byddai cymryd rhan yn y cynllun o gymorth yn y dyfodol wrth iddynt barhau i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Er enghraifft, nododd rhai ysgolion fod gweithgorau newydd wedi'u sefydlu yn canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Cwricwlwm i Gymru a thrwy grwpiau o'r fath, roedd mwy a mwy o gyfleoedd i drafod ac archwilio'r hyn a ddysgwyd drwy'r cynllun a'i ddefnyddio yn y cwricwlwm newydd.

## 2.3 Lledaenu

Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio deall i ba raddau yr oedd ysgolion wedi llwyddo i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o'u rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar draws yr ysgol gyfan. Yn yr achosion hyn, gofynnwyd i'r ysgolion nodi unrhyw weithgareddau penodol a fu'n effeithiol o ran gwreiddio a lledaenu'r hyn a ddysgwyd.

Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion hyn fod gweithgareddau'n cynnwys rhannu'r hyn a ddysgwyd trwy ddiwrnodau HMS, cyfarfodydd, sesiynau gyda'r hwyr a digwyddiadau rhwydweithio (n=14). Roedd enghreifftiau'n cynnwys rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng adrannau, sesiynau hyfforddiant ysgol gyfan a chydweithio ag ysgolion clwstwr lleol er mwyn rhannu â staff addysgu nad oeddent wedi cymryd rhan yn uniongyrchol. Roedd hyn yn galluogi athrawon i ddysgu am addysgeg greadigol, datblygu eu dealltwriaeth o Arferion Creadigol y Meddwl, rhannu syniadau â'i gilydd a phrofi dulliau cyn adrodd yn ôl ar eu profiadau i gydweithwyr.

---

'Roedd cael yr amser penodedig yma [diwrnod HMS yr ysgol] i rannu a deall beth oedd pwrpas y cynllun yn rhoi'r cyfle i staff nad oeddent nhw wedi cymryd rhan ddatblygu eu dealltwriaeth ac yna archwilio rhai elfennau o'r cynllun yn ôl yn y dosbarth.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin arall yn cyfeirio at rôl yr ymarferydd creadigol ac arbenigwyr eraill wrth helpu i ledaenu'r hyn a ddysgwyd ar draws yr ysgol (n=10). Teimlai ysgolion fod cael y cyfle i weithio gydag arbenigwyr yn y maes hwn yn werthfawr ac yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i athrawon ddatblygu dulliau creadigol ar draws yr ysgol gyfan.

---

'Y cyfle i athrawon dosbarth gynllunio a gweithio gyda'r ymarferydd creadigol fu'r peth mwyaf pwerus gan ei fod wedi uwchsgilio staff addysgu a gwella eu dealltwriaeth mewn ystod o feysydd sgiliau penodol.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson ag ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw drwy'r astudiaethau achos lle'r oedd enghreifftiau o sut roedd diwrnodau HMS a mathau eraill o hyfforddiant athrawon yn cael eu cynnal mewn ysgolion ac ar draws clystyrau lleol er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ynghylch dulliau creadigol.

Roedd canfyddiadau'r astudiaethau achos yn awgrymu mai'r ffordd orau i ledaenu'r hyn a ddysgwyd ar draws yr ysgolion oedd cynnwys athrawon yn uniongyrchol wrth gynnal prosiectau. Ystyriwyd mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i ddangos gwerth arferion creadigol i staff addysgu gan ei fod yn eu galluogi i weld drostynt eu hunain fanteision ac effaith mabwysiadu'r dulliau hyn.

Dull arall effeithiol o ledaenu'r hyn a ddysgwyd, fel yr amlygwyd yn yr astudiaethau achos, oedd trwy arddangos rhyw fath o wrthrych corfforol i'w hatgoffa. Roedd arddangos darnau o gelf yn yr ysgol yn helpu i atgoffa athrawon o'r profiad ac yn eu hysgogi i fabwysiadu'r dulliau ymhellach. [Mewn un ysgol astudiaeth achos](#), yn ystod un o'r prosiectau, a oedd yn canolbwyntio ar fathemateg a'r amgylchedd, bu ymarferydd creadigol yn gweithio gyda dysgwyr i greu model bach o bren helyg. Mae'r model hwnnw'n dal ar yr iard ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer amser stori ac wrth chwarae.

Gwnaeth yr astudiaethau achos hefyd amlygu sawl her mewn perthynas â lledaenu'r hyn a ddysgwyd. Er enghraifft, cyfeiriodd rhai ysgolion at yr angen i gydbwysu hyn ag ystod o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn yr ysgol, a goresgyn y rhwystr yr oedd tynhau cyllidebau ysgolion wedi'i greu. Amlygodd ysgolion eraill yr astudiaethau achos bwysigrwydd cael uwch dîm arwain cefnogol, gan gynnwys llywodraethwyr, a phwysigrwydd trosiant/cadw athrawon fel ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ba mor effeithiol y lledaenwyd yr hyn a ddysgwyd.


## 2.4 Cysylltiadau â'r Sector Celfyddydol a Chreadigol

Agwedd graidd o gynllun gwaith yr Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd y cysylltiadau a greodd y cynllun rhwng yr ysgol, yr ymarferwyr creadigol a'r sector celfyddydol a chreadigol ehangach. Wrth ystyried gwaddol y cynllun, mae'n ddefnyddiol deall i ba raddau y mae'r cysylltiadau a grëwyd drwy'r cynllun yn dal yn eu lle sawl blwyddyn yn ddiweddarach.

Gofynnwyd i ysgolion a oeddent yn dal mewn cysylltiad â'r asiant creadigol y buont yn gweithio â nhw drwy'r cynllun ac roedd y canfyddiadau'n gymysg gyda'r un nifer o ysgolion yn dweud eu bod yn dal mewn cysylltiad â nifer yr ysgolion a ddwedodd nad oeddent (50 y cant).<sup>4</sup>

Cafwyd ymateb cymysg hefyd o ran a oedd yr ysgol yn dal i fod mewn cysylltiad ag eraill o sector y celfyddydau (unigolion neu sefydliadau) y gwnaethant gyfarfod â nhw wrth gymryd rhan yn y cynllun gyda 23 allan o 45 (51 y cant) o ymatebwyr yn dweud eu bod.

**Ffigur 2.4: Canran yr ysgolion sy'n dal i fod mewn cysylltiad â rhai ers ymwneud â'r cynllun**



Ffynhonnell: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=45<sup>5</sup>

Gofynnwyd i'r ysgolion hefyd a oeddent wedi gweithio gyda rhywun o sector y celfyddydau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymateb yn fwy cadarnhaol yn yr achos hwn gyda 27 allan o 45 (60 y cant) o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi gweithio gyda rhywun o sector y celfyddydau yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd grŵp cymharol fawr o ymatebwyr (33 y cant) wedi gwneud hynny, ac roedd tri yn ansicr. Mae hyn o bosibl yn awgrymu bod y cynllun wedi bod yn llai llwyddiannus o ran datblygu cysylltiadau cynaliadwy rhwng ysgolion a'r sector celfyddydol a chreadigol, er yr effaith gadarnhaol a nodwyd yn flaenorol ar addysgu yn yr ysgolion.

<sup>4</sup> Noder: Ymatebodd pum ysgol gan ddweud nad oeddent yn siŵr.

<sup>5</sup> Noder: Ymatebodd pum ysgol gan ddweud 'ddim yn siŵr' mewn perthynas â bod mewn cysylltiad â'r asiant creadigol a phedair ysgol mewn perthynas â bod mewn cysylltiad â rhywun o'r sector.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr egluro natur eu gwaith gydag unigolion neu sefydliadau o'r sector celfyddydol a chreadigol, yn y mwyafrif o achosion (n=20) roedd yn berthynas barhaus a rheolaidd. Mewn achosion eraill (n=7) disgrifiodd yr ymatebydd brosiect penodol a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf.

Mae'n werth tynnu sylw hefyd at amrywiaeth y partneriaethau a grëwyd rhwng ysgolion a'r sector celfyddydol a chreadigol wrth i ysgolion ddweud eu bod wedi gweithio gyda chwmnïau bale, storiwyr, grwpiau pypedau, beirdd, dawnswyr, perfformwyr ffilm a theatr, artistiaid gwydr lliw, artistiaid cymunedol a llawer mwy. Roedd y perthnasoedd yn tueddu i fod ar sail prosiect-wrth-brosiect, fodd bynnag, nododd un ysgol eu bod wedi cyflogi artist i weithio ar draws yr ysgol gyfan i gynorthwyo datblygiad addysgu creadigol a datblygiad proffesiynol yr holl staff.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai o'r astudiaethau achos, lle dywedodd nifer o ysgolion eu bod yn parhau i weithio gydag ymarferwyr creadigol mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, cynhaliodd Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff nifer o brosiectau gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol gan gynnwys Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Phrifysgol Abertawe fel rhan o'u dyfarniad '[Ysgol Noddfa](#)' a oedd hefyd yn cynnwys canlyniadau'n cael eu harddangos yn Tate Modern.

Mae Ysgol Tudno wedi datblygu perthynas ag [Ensemble Cymru](#) sydd wedi golygu gweithio gyda'u cerddorion i greu deunydd ar gyfer sioe radio gymunedol Radio Ensemble Cymru.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y profiadau hyn wedi helpu athrawon i werthfawrogi pwysigrwydd darparu ystod o brofiadau a chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol at ddibenion niferus. At hynny, mae'n ymddangos bod cymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi dylanwadu ar yr ymgysylltiad parhaus hwn â'r sector ymhlith rhai ysgolion. O'r 27 o ymatebwyr a oedd wedi gweithio gydag ymarferydd creadigol dros y 12 mis diwethaf, dywedodd 12 ei bod yn annhebygol y byddai hyn wedi digwydd heb eu bod wedi ymwneud â'r cynllun, a nododd chwech o'r rheini ei fod yn annhebygol iawn.

Fodd bynnag, dywedodd wyth o'r 27 ei bod yn debygol, gyda chwech o'r rheini'n dweud ei bod yn debygol iawn, gan awgrymu bod o leiaf rhai o'r ysgolion yn ystyried eu bod eisoes ar yr un 'llwybr' o ran eu hymwneud â sector y celfyddydau, p'un a fyddent wedi cymryd rhan yn y cynllun ai peidio.

Dywedodd ysgolion yr astudiaethau achos mai'r brif her wrth barhau â'u perthynas ag ymarferwyr creadigol oedd y cyllid oedd ar gael a oedd yn cyfyngu ar hyd a lled yr hyn oedd yn bosibl. Er bod ysgolion yn teimlo eu bod yn gallu fforddio talu am brosiectau creadigol tymor byr, bach neu untro, nid oedd y cyllidebau yn caniatáu iddynt fod yn rhan o ddarnau o waith tymor hwy a byddai hyn yn dibynnu ar ffynonellau cyllid neu raglenni allanol. Mae'r ddibyniaeth hon ar gyllid allanol yn peryglu cynaliadwyedd yr effeithiau ar ysgolion.

Mae hyn yn awgrymu darlun cymysg mewn perthynas â rôl y cynllun o ran cynyddu cysylltiadau rhwng ysgolion a'r sector celfyddydol a chreadigol. Nodwyd COVID-19 (n=2) fel rheswm pam na fu unrhyw gysylltiad â'r sector dros y 12 mis diwethaf, sy'n ffactor pwysig i'w ystyried wrth edrych ar y canfyddiadau hyn.

## 2.5 Gwelliannau Posibl

Gofynnwyd i ysgolion nodi agweddau ar y cynllun y gellid bod wedi'u gwella er mwyn cynyddu neu gynnal yr effaith a gafodd. Dim ond nifer fach o sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a'r mwyaf cyffredin oedd y cyfle i wneud mwy o rwydweithio a rhannu'r hyn a ddysgwyd ag ysgolion eraill (n=4). Awgrymodd rhai ysgolion (n=2) y byddai cyllid pellach wedi bod yn werthfawr i alluogi mwy o amser i staff ac ymarferwyr gydweithio, er enghraifft i gynllunio gwaith a chydlynu gweithgarwch.

---

'Yn ystod y prosiect, byddai mwy o gyfarfodydd rhwydwaith gydag ysgolion eraill i gymharu dulliau wedi bod yn werthfawr hefyd.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

'Ers i ni gymryd rhan, gallai mwy fod wedi'i wneud i ddathlu llwyddiant ar draws y prosiect. Byddai hyn wedi bod yn gyfle i rannu ag ysgolion eraill.' **Ysgol Greadigol Arweiniol**

---

Teimlai dwy ysgol arall y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael mwy o gysylltiad parhaus â'r ymarferydd creadigol ar ôl i'r cynllun ddod i ben ac y dylid rhoi mwy o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn cynlluniau tebyg. Amlygwyd hyn hefyd gan un o ysgolion yr astudiaeth achos lle mynegodd y pennaeth beth pryder ynghylch effeithiau'r cynllun yn lleihau dros amser ac y gallai rhywfaint o hyfforddiant neu brosiectau 'gloywi' fod yn ddefnyddiol i gynnal momentwm.

## 3. Y Gwaddol i Artistiaid


Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd gyda'r artistiaid a'r ymarferwyr creadigol a weithiodd gydag ysgolion yn ystod cam un a dau y cynllun. Mae'n defnyddio data o 77 o ymatebion sydd, allan o boblogaeth o 349, yn cyfateb i gyfradd ymateb o 22 y cant. Ceir dadansoddiad yn dangos proffil y sampl yn yr atodiad.

### Pwyntiau allweddol

- Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod ymwneud â chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar 68 y cant o ymatebwyr.
- Roedd yr effeithiau cadarnhaol hyn yn ymwneud ag artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder newydd. Roedd artistiaid ac ymarferwyr creadigol hefyd yn gwerthfawrogi gweithio gydag ysgolion ac yn teimlo bod y cynllun wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o gynnwys athrawon a disgyblion mewn arferion creadigol.
- Cyfeiriodd rhai artistiaid ac ymarferwyr creadigol at heriau o ran gweithio gyda rhai ysgolion gan roi enghreifftiau lle roedd diffyg cyfathrebu, anawsterau wrth gydlynu gweithgareddau a lefelau amrywiol o ymgysylltiad ysgolion wedi dylanwadu ar yr effeithiau parhaol arnynt hwy fel ymarferwyr creadigol.
- Dangosodd y canfyddiadau effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â dealltwriaeth artistiaid ac ymarferwyr creadigol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru a sut y gallant gynorthwyo i'w gyflwyno. Roedd y cynllun hefyd yn helpu artistiaid ac ymarferwyr creadigol i dyfu eu rhwydweithiau ac, i raddau llai, wedi arwain at wneud gwaith na fyddent wedi'i wneud fel arall.

Gofynnwyd i'r artistiaid a'r ymarferwyr creadigol ddisgrifio effaith gyffredinol cymryd rhan yn y cynllun arnyn nhw / eu sefydliad ar ddiwrnod cynnal yr arolwg. Mae'r ymatebion, sydd i'w gweld yn Ffigur 3.1 ar y dudalen nesaf, yn dangos darlun gweddol gadarnhaol yn ymwneud ag effeithiau parhaus y cynllun ar artistiaid ac ymarferwyr creadigol.

Ffigur 3.1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau effaith gyffredinol bod yn rhan o gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol arnoch chi/eich sefydliad heddiw?



Cynllun: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=76

Dangosodd dadansoddiad o'r cwestiwn dilynol a ofynnodd i ymatebwyr egluro eu hateb fod yr effeithiau mwyaf cyffredin yn ymwneud â datblygu sgiliau a/neu hyder mewn perthynas â gweithio gydag ysgolion (n=16). Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at y ffordd yr oedd y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar eu harferion creadigol personol, wedi gwella eu hyder ac wedi helpu i gynyddu eu dealltwriaeth a'u profiad o wahanol fethodolegau addysgol.

Aeth rhai artistiaid ymlaen i awgrymu, o ganlyniad i'w profiadau drwy'r cynllun, fod eu rhan nhw ynddo wedi arwain at hunan-ddilysiad fel ymarferydd creadigol. Teimlai eraill fod y cynllun wedi helpu i ddatblygu sgiliau personol yn ymwneud â rheoli pobl a chyfathrebu o ganlyniad i rai o'r heriau a brofwyd ganddynt wrth weithio gydag ysgolion (ymhelaethir ar hyn isod). Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth a'r gwerth a roddwyd i'w sgiliau a'u profiad drwy'r rhaglen a oedd yn cynnwys cyfraddau cyflog a oedd yn cyd-fynd â'u profiad a'u sgiliau ac roedd hyn yn creu ymdeimlad o werth.

---

'Cafodd y cynllun effaith ar fy ngallu i ddyfeisio dulliau creadigol amgen a chynorthwyo [ysgolion] i'w gwreiddio.' **Ymarferydd Creadigol**

'Mae cymryd rhan yn yr hyfforddiant ymarferwyr wedi fy helpu i fy ystyried fy hun, a bod yn hapus yn datgan fy mod i'n ymarferydd creadigol.' **Ymarferydd Creadigol**

---

Cyfeiriodd ymatebion cyffredin eraill at y gwerth yr oedd ymatebwyr yn ei roi i weithio gydag ysgolion (n=15) ac athrawon (n=9). Roedd yr ymatebion hyn fel arfer yn cyfeirio at sut roedd y cynllun yn helpu artistiaid ac ymarferwyr creadigol i ddysgu mwy am y cwricwlwm a sut mae ysgolion yn gweithredu, ac roedd hyn yn eu galluogi i addasu eu dulliau i sicrhau eu bod yn sensitif i anghenion a blaenoriaethau'r ysgolion. Cyfeiriodd yr ymatebion hefyd at y ffaith bod gweithio gydag ysgolion ac athrawon a chael y cyfle i annog a meithrin arferion creadigol i gefnogi'r dysgu yn rhoi boddhad. Adroddwyd hefyd am effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â gweithio gydag athrawon a disgyblion a oedd yn awyddus i ddysgu oddi wrth yr ymarferwyr creadigol a datblygu eu harferion.

---

'Mae gennym ni well dealltwriaeth o'r system ysgolion ac yn benodol, sut i wneud ein harlwy yn fwy perthnasol a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.' **Ymarferydd Creadigol**

'Roedd y broses o weithio gyda'r disgyblion yn y ddwy ysgol yn rhoi boddhad mawr a'r canlyniadau'n hynod foddhaol ar bob lefel.'  
**Ymarferydd Creadigol**

---

Er bod y sylwadau'n gadarnhaol ar y cyfan, nododd artistiaid ac ymarferwyr creadigol rai heriau mewn perthynas â gweithio gydag ysgolion fel rhan o'r cynllun (n=7). Roedd yr ymatebion hyn yn awgrymu bod rhywfaint o amrywiaeth ar draws ysgolion o ran eu cymhelliant a'u hymgysylltiad â'r rhaglen. Adroddwyd y gallai rhai ysgolion fod wedi cyfathrebu a chydweithio'n well gyda'r artistiaid, bod rhai ysgolion yn eithaf anhyblyg yn eu hamserlennu a achosodd heriau cydlynu a bod lefelau gwahanol o ymrwymiad ymhlith athrawon a staff. Roedd heriau eraill yn ymwneud ag ysgolion yn canolbwyntio'n ormodol ar y canlyniad terfynol yn hytrach na'r dysgu creadigol ac anawsterau wrth reoli disgwyliadau ysgolion. Dywedodd tri ymatebydd nad oedd eu rhan yn y cynllun yn effeithio o gwbl ar eu gyrfa na'u hymarfer yn y dyfodol.

---

'Roedd ansawdd y broses a'r deilliannau yn amrywio'n aruthrol yn ôl ethos ac ymrwymiad yr ysgolion. Roedd rhai prosiectau yn drawsnewidiol ac yn ysbrydoledig tra nad oedd eraill yn cyd-fynd yn strategol na chael cefnogaeth gan y staff. Pan oedd yn gweithio, fe welais i'r staff a'r disgyblion yn rhagori.' **Ymarferydd Creadigol**

'Roedd gan yr ail ysgol lawer o faterion ar waith, fe wnes i redeg pob sesiwn ar fy mhen fy hun, doedd yr athro ddim yn bresennol, ac roedd y cynorthwydd addysgu yn eistedd wrth ddesg heb ymgysylltu. Roedd hyn wrth gwrs yn rhwystredig fel ymarferydd.' **Ymarferydd Creadigol**

---




Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn dal i weithio gydag ysgolion i ddarparu'r un gwasanaethau neu wasanaethau tebyg i'r rhai a ddarparwyd fel rhan o gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Dyma a ddangosodd y gwaith dadansoddi:

- Dywedodd tri deg chwech o'r 60 (60 y cant) a oedd yn gweithio gydag ysgolion cyn iddynt ymwneud â'r cynllun eu bod yn dal i wneud hynny ar ddiwrnod eu hymateb;
- Dywedodd chwech o'r 13 (31 y cant) nad oeddent yn gweithio gydag ysgolion cyn iddynt ymwneud â'r cynllun eu bod yn dal i wneud hynny ar ddiwrnod eu hymateb.

Mae nifer yr ymatebwyr yn amlwg yn fach pan gaiff y sampl ei rhannu i'r grwpiau hyn. Fodd bynnag, yr awgrym yw bod y tebygolrwydd o barhau i ddarparu gwasanaethau tebyg ar ôl iddynt ymwneud â'r cynllun yn cael ei ddylanwadu gan a oeddent yn gwneud hynny o'r blaen ai peidio.

Wrth archwilio'r thema hon ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi newid eu 'harlwy' ers iddynt ymwneud â'r cynllun. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (48 y cant) eu bod wedi newid eu hymarfer a dywedodd 29 y cant arall nad oeddent. Dewisodd cyfran gymharol uchel yr opsiwn 'methu ag ateb' (23 y cant). Mae'r esboniadau mwyaf cyffredin, wedi'u codio, ar gyfer hyn i'w gweld yn Ffigur 3.2 isod.

Ffigur 3.2: Rhesymau wedi'u codio yn ymwneud â pham roedd artistiaid ac ymarferwyr creadigol wedi newid eu harlwy i ysgolion neu beidio



Ffynhonnell: Arolwg Ysgolion Wavehill 2022, n=23

Roedd effaith y rhaglen ar newid 'arlwy' ymarferwyr creadigol yn amrywio. Lle'r oedd sgiliau wedi'u gwella a'u hehangu, roedd yr ymatebion yn nodi bod y cynllun wedi cynyddu'r hyder i gyflwyno ystod ehangach o weithgareddau a gweithio gydag ysgolion ar draws ystod o bynciau.

---


'Rwyf wedi ymestyn allan ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth gynnig sesiynau sy'n canolbwyntio, er enghraifft, ar rifedd a hanes.' **Ymarferydd Creadigol**

---

Teimlai rhai ymarferwyr fod eu gallu i weithio mewn ffyrdd creadigol eisoes yn bresennol, ond roedd y rhaglen yn cynnig mwy o gyfleoedd ariannu a oedd yn caniatáu iddynt weithio'n helaethach mewn ysgolion. Nododd yr ymatebwyr rai newidiadau yn eu hymagwedd, megis canolbwyntio ar gysylltiadau rhyngddisgyblaethol, cyd-fynd â'r cwricwlwm, neu gynnig ystod ehangach o weithgareddau. Fodd bynnag, soniodd rhai ymarferwyr nad oedd y rhaglen wedi arwain at newidiadau sylweddol yn eu hymarfer na'u dulliau (n=5), a nododd rhai nad oeddent bellach yn gweithio gydag ysgolion am resymau amrywiol (n=5) gan gynnwys newidiadau yng nghyfeiriad eu gyrfa neu ffactorau allanol fel y pandemig. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn nodi cymysgedd o newidiadau cadarnhaol a niwtral yn arferion ymarferwyr o ganlyniad i'w rhan yn y cynllun.

Gofynnwyd i'r artistiaid a'r ymarferwyr creadigol i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o osodiadau yn ymwneud â'u profiad o'r cynllun ac mae'r canfyddiadau hyn i'w gweld yn Ffigur 3.3, ar y dudalen nesaf.

Ffigur 3.3: I ba raddau yr oedd yr artistiaid a'r ymarferwyr creadigol yn cytuno â'r gosodiadau canlynol



Dangosodd y canfyddiadau hyn, o ganlyniad i'w rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, fod gan yr ymatebwyr well dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd a sut y gall ymarferwyr creadigol fod o gymorth i'w gyflawni:

- Roedd wyth deg pedwar y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt bellach ddealltwriaeth well o sut y gall ymarferwyr creadigol proffesiynol gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd;
- Roedd 76 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt bellach well dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Dywedodd ymatebwyr hefyd fod ganddynt well dealltwriaeth o rôl ymarferwyr creadigol mewn ysgolion:

- Roedd 77 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt well dealltwriaeth o'r rôl y gall ymarferydd creadigol ei chwarae mewn ysgolion.

Er bod y cynllun wedi arwain at effeithiau mewn perthynas â chynyddu rhwydweithiau a chefnogi ymarferwyr creadigol i gydweithredu ag unigolion a sefydliadau newydd, roedd y gwelliannau hyn yn llai cyffredin ymhlith yr ymatebwyr.

- Roedd 39 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi gwneud gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf na fyddai wedi bod yn agored iddynt fel arall;
- Roedd 56 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cydweithredu ag unigolion a sefydliadau yn y flwyddyn ddiwethaf yn benodol oherwydd eu rhan yn y cynllun;
- Roedd 66 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod bellach ganddynt rwydwaith ehangach o fewn y sector creadigol ers iddynt ymwneud â'r cynllun.

# 4. Astudiaethau Achos Ysgolion

## 4.1 Astudiaeth Achos 1: Ysgol Harri Tudur

Cytunodd Ysgol Harri Tudur i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Mehefin 2023. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig â dau athro Saesneg, ac roedd un ohonynt hefyd yn arweinydd Cyfnod Allweddol (CA) 3.

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Sir Benfro yw Ysgol Harri Tudur. Gwnaeth yr ysgol gymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol y tro cyntaf yn 2015/16 ac mae wedi cymryd rhan mewn prosiectau sawl gwaith ers hynny, gan gynnwys cefnogi ysgolion eraill fel rhan o'r ail linyrn yn 2018-19. Roedd eu prosiect cyntaf yn canolbwyntio ar gael dysgwyr mewn setiau isel i ymwneud â llenyddiaeth ac roedd yn cynnwys datblygu llwybr 'Lord of the Flies' yn y coed y tu ôl i'r ysgol. Mae prosiectau dilynol wedi canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau creadigol fel ffilm, animeiddio ac ysgrifennu stori fel rhan o ddysgu ac addysgu. Roedd eu prosiect ysgol-i-ysgol yn cynnwys creu tapestri modern yn dangos map o Benfro.



Tapestri modern a grëwyd fel rhan o brosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol

### [Y gwaddol ar gyfer dysgu ac addysgu](#)

O ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan yn y Cynllun, mae'r adran leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi gweithio'n galed i sicrhau bod prosiect creadigol yn ei le ar gyfer CA3 yn gyfan a rhywfaint o CA4. Er enghraifft, yn ystod un prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol buont yn gweithio gydag ymarferydd creadigol i greu modelau ffisegol o filwr rhyfel er mwyn dod â barddoniaeth Wilfred Owen yn fyw. Nawr, bob blwyddyn cyn i ddysgwyr gael eu hasesu ar eu gwaith, maent yn creu model syml o filwr rhyfel gyda deunyddiau sydd eisoes ar gael yn yr ysgol; nid oes angen cyllid penodol i gyflawni hyn.

Mae athrawon yn gweld bod dulliau o'r fath yn gwneud dysgwyr yn llawer mwy empathetig ac yn gwneud i'r testunau y maent yn eu hastudio deimlo'n seiliedig ar realiti. Wrth astudio *Into the Wild*, mae dysgwyr yn dod â'u bocsys esgidiau eu hunain i greu eu bws eu hunain. Mae un athro Saesneg yn rhoi rholiau hir o bapur i'r dysgwyr er mwyn iddynt 'ddwdlo' meddyliau a syniadau arnynt wrth iddynt drafod testunau. Mae un arall yn gosod 'bwrdd gwledd' syml wrth astudio Macbeth, sy'n creu cyffro ymhlith y dysgwyr, ac yn gosod amlinelliadau o gyrff marw ar y llawr wrth astudio *In Cold Blood* gyda disgyblion 6<sup>ed</sup> dosbarth. Mae adrannau eraill wedi treialu gwahanol ddulliau hefyd, fel defnyddio offerynnau cerdd i addysgu mathemateg.

---

'Rydyn ni'n llawer mwy creadigol ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd o ganlyniad uniongyrchol i'r flwyddyn gyntaf [fel Ysgol Greadigol Arweiniol].' **Athro Saesneg**

'[A fyddai'r newidiadau hyn wedi digwydd beth bynnag?] Mae'r prosiect yn bendant wedi ein helpu i feddwl yn fwy creadigol ac rydyn ni i gyd wedi gweld manteision dysgu ac addysgu creadigol. Mae bod yn rhan o'r prosiect wedi ategu hyn.' **Athro Saesneg**

---

Mae gweithgareddau o brosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau gwaith. Yn ystod un prosiect, bu Blwyddyn 7 ac 8 yn gweithio ar adrodd storiâu ar thema Cynefin, ac yn dilyn hynny aeth grŵp llai o ddysgwyr ati i ddatblygu ffilm. Yn ystod y prosiect hwn, roedd yr athrawon yn synnu o glywed nad oedd y dysgwyr yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac nad oedd eu barn o bwys i'r athrawon. Nawr, mae cynllun gwaith Blwyddyn 8 yn cynnwys pwysigrwydd parciau cenedlaethol, pan fydd y dysgwyr yn gwyllo'r ffilm ac yn trafod Cynefin.

Mae cymryd rhan hefyd wedi newid y ffordd y mae rhai athrawon yn cynnal asesiadau ac yn annog dysgwyr i gasglu tystiolaeth. Wrth ganolbwyntio ar thema 'mythau a chwedlau', mae'r dysgwyr yn cael y dewis o siarad o flaen y dosbarth neu eu ffilmio eu hunain gartref. Gwnaeth yr athro ffilmio eu hesiampl eu hun ar gyfer y dysgwyr a dewisodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr gyflwyno yn y modd yma.

---

'Yn bendant, fe wnaeth rhoi dewis i'n dysgwyr siarad o flaen y dosbarth; o fy mlaen i neu anfon fideo roi hwb i'n dysgwyr tawelach.' **Athro Saesneg ac Arweinydd Cyfnod Allweddol 3**

---

Mae gan ddysgwyr yr opsiwn o gwblhau cofnodion dysgu am eu dysgu creadigol y tu allan i'r ysgol, er nad yw pob dysgwr yn cwblhau un.

### [Y gwaddol ar gyfer y berthynas rhwng yr athro a'r dysgwr](#)

Mae cymryd rhan yn y cynllun wedi galluogi athrawon i weld ochr wahanol i'r dysgwyr, ac i'r gwrthwyneb. Daeth yr athrawon yn agos at y dysgwyr yn ystod y prosiect ac fe wnaeth y prosiectau **“wella'r berthynas rhwng yr athro a'r disgybl yn aruthrol ar sail hirdymor iawn, hyd yn oed o un sesiwn greadigol”**. Defnyddiodd y dysgwyr ffyrdd newydd i fynegi eu hunain a themlent fod yr athrawon yn malio amdany'n nhw; roedden nhw **“wir yn teimlo buddsoddiad [ynddynt] ac fe wnaeth fy ngwthio i gofio mai cydberthynas yw popeth”**. O ganlyniad, roedd y dysgwyr yn aml yn gwneud yn dda mewn pynciau eraill yn gyffredinol.



Prosiect Coedwig Lord of the Flies

### Gwreiddio creadigrwydd ar draws yr ysgol

Roedd ail brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn brosiect ysgol gyfan a hyfforddwyd nifer o athrawon gan ymarferwyr creadigol. Roedd y prosiect yn fwy llwyddiannus mewn rhai meysydd pwnc nag eraill, yn enwedig lle roedd athrawon unigol mewn sefyllfa i ysgogi newid. Mae'r adran leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn hyderus ac yn ysgogi arbrofi â

chreadigrwydd mewn dulliau addysgu. Mae'n anodd sicrhau bod pob aelod o staff yn gefnogol oherwydd ***“weithiau gall creadigrwydd greu llanast, gall fod yn swnllyd a bydd rhai dysgwyr yn camymddwyn”***. Mae datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i ddarparu ar ffurf diwrnodau HMS, lle y gwnaeth yr aelod o staff oedd yn arwain ar brosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol atgoffa'r staff bod lle i greadigrwydd mewn dysgu ac addysgu, gan restru ffyrdd y gall gweithgareddau gael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Chwaraeodd yr ymarferwyr creadigol eu hunain rôl bwysig o ran pa mor llwyddiannus y cafodd y dulliau eu gwreiddio ar draws yr ysgol; roedd ymarferwyr â phrofiad mewn ysgol uwchradd yn gallu rhannu syniadau'n well i'w defnyddio'n hawdd yn yr ystafell ddosbarth. Aeth rhai ymarferwyr 'yr ail filltir' o ran eu hymrwymiad i'r prosiect, gan helpu i sefydlu eu dulliau creadigol priodol yn yr ysgol. Mae rhyngweithio effeithiol rhwng athrawon ac ymarferwyr wedi bod yn hanfodol i newid y ffyrdd y mae athrawon yn gweithio ar sail hirdymor.

Mae prosiectau creadigol yn sicr yn cael eu cefnogi gan yr uwch dîm arwain, yn bennaf am eu bod wedi gweld gwerth prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol wrth iddynt gael eu cynnal. Fodd bynnag, mae'n anodd blaenoriaethu creadigrwydd mewn dysgu ac addysgu wrth wynebu nifer o flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â'i gilydd, fel cyllid a phresenoldeb. Mae athrawon yn ymwybodol mai prin yw'r adnoddau sbâr i'w neilltuo i brosiectau creadigol gan ddweud pe bai mwy o arian ar gael i ysgolion, byddent yn awyddus i ddatblygu mwy o'u prosiectau creadigol eu hunain.

### Cwricwlwm i Gymru

Mae rhai adrannau wedi gweld gwerth ychwanegol sylweddol mewn defnyddio creadigrwydd wrth gynllunio ac addysgu. Fodd bynnag, arholiadau yw prif ffocws llawer o'u gwaith o hyd. Mae angen i athrawon ddod o hyd i weithgareddau creadigol sy'n cyd-fynd yn hawdd â chynlluniau gwaith; rhaid i ddysgu creadigol ychwanegu gwerth at asesiadau. Er bod staff yn teimlo bod cymryd rhan yn y cynllun ***“wedi ein helpu'n aruthrol i baratoi i fod yn fwy creadigol, gall creadigrwydd fod yn frawychus”***, maent yn dal i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd.

O'r herwydd, maent yn teimlo bod y cynllun wedi eu helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm ond nad yw creadigrwydd wedi'i blethu'n llawn i'w gwaith cynllunio ac addysgu eto. Fodd bynnag, mae creadigrwydd yn ddefnyddiol i athrawon wrth ddylunio cynlluniau gwaith o amgylch 'cwestiynau mawr' bob tymor. Er bod y cwricwlwm newydd yn caniatáu ac yn annog creadigrwydd mewn dysgu ac addysgu, mae staff yn teimlo mai eu rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eu hymagwedd hyd yn hyn.

## 4.2 Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn

Cytunodd Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Mehefin 2023. Cynhaliwyd cyfweiliad lled-strwythuredig ag Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol i lywio'r astudiaeth achos. Gwahoddwyd athrawon eraill i gyfrannu ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Gwaunmeisgyn. Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol bron bob blwyddyn ers 2017, gan gynnwys cynorthwyo ysgolion eraill fel rhan o'r ail llyn yn 2018-19 a chymryd rhan yn Ewch i Greu yn 2021-22. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfranogiad yr ysgol wedi'i gydlynu gan Arweinydd Celfyddydau Mynegiannol yr ysgol.

Penderfynodd yr ysgol yn gymryd rhan yn y Cynllun gyntaf yn y gobaith o wella sgiliau ysgrifennu disgyblion Blwyddyn 2 trwy ddrama; dyma oedd ffocws y prosiect cyntaf yn 2017-18. Yn y blynyddoedd dilynol, mae prosiectau'r ysgol wedi canolbwyntio ar themâu eraill fel gwella sgiliau llefaredd, neu sgiliau datrys problemau a rhesymu, trwy ddysgu creadigol yn yr awyr agored.



Dod â storïau ar thema anifeiliaid yn fyw drwy bypedau a phropiau

### [Y gwaddol i ddysgwyr](#)

Mae'r prosiectau wedi canolbwyntio ar ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen, a roddodd gyfle i athrawon feithrin y sgiliau creadigol a ddysgwyd yn ystod y prosiect ar draws addysg gynradd y dysgwyr. Mae'r athrawon bellach yn ystyried bod y dysgwyr a gymerodd ran mewn prosiectau yn fwy gwydn, sy'n golygu bod yr athrawon yn gweld eu bod yn gallu dyfalbarhau ar ddarn o waith ac addasu i ffyrdd newydd o weithio yn haws.



Mae modd rhoi lle iddynt archwilio a datrys eu heriau eu hunain. Arweiniodd y prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar wella llafaredd, at welliant mewn amhariadau ar leferydd ymhlith rhai dysgwyr. Awgrymwyd hefyd bod cyfranogiad a dulliau creadigol parhaus o addysgu hefyd wedi gwella lles dysgwyr a'u hannog i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, hyd yn oed y rhai a allai fod yn colli dyddiau ysgol fel arfer.

---

'Rydyn ni wedi canfod bod ein dysgwyr yn gallu cymhwyso'r sgiliau y maen nhw wedi'u dysgu a dangos lefelau uwch o wytnwch a chreadigrwydd nag mewn blynyddoedd blaenorol.' **Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol**

'Mae'r plant yn cydweithio mwy, maen nhw'n gweithio'n well fel tîm ac fe allwn ni annog hyn mewn dosbarthiadau eraill hefyd am ein bod ni wedi dysgu'r sgiliau. Fe wnaethon nhw dynnu ynghyd a chefnogi ei gilydd ar daith breswyl yn ddiweddar.' **Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol**

---

### Y gwaddol i athrawon

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys cynorthwyrwyr addysgu, athrawon a'r rhai mewn rôl arweinyddiaeth. Hyd yn oed os nad yw aelod o staff wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn prosiect, mae bron yn sicr y byddant yn awr yn gweithio ochr yn ochr â rhywun sydd wedi gwneud hynny. Mae sgiliau creadigol staff wedi gwella ac, yn bwysicach efallai, maent bellach yn fwy agored i ymgorffori creadigrwydd yn eu dulliau addysgu. Mae hyn yn cynnwys cymryd risgiau wrth dreialu dulliau a syniadau newydd, fel casglu syniadau gan ymarferwyr creadigol a'u cymhwyso i'w haddysgu eu hunain yn yr ystafell ddosbarth.

Er enghraifft, ysbrydolwyd un athro gan arferion adrodd storïau o fewn prosiect llafaredd pan ddaeth yr ymarferydd i'r ysgol wedi'u gwisgo fel bod arallfydol. Yn ddiweddarach daeth yr athro i'r ysgol wedi gwisgo fel gwrach, gan aros yn eu cymeriad trwy gydol y dydd – rhywbeth na fyddent erioed wedi rhoi cynnig arno o'r blaen. Mae athrawon yn rheolaidd bellach yn cymryd llawer o weithgareddau o'r prosiectau ac yn eu cymhwyso mewn mannau eraill.

---

'Fe wnaeth bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol ein helpu i ddechrau edrych ar sut rydyn ni'n addysgu ac ystyried ffyrdd i symud hyn y tu allan i gyfyngiadau arferol yr ystafell ddosbarth. Mae wedi ein hannog ni fel staff i fentro o ran yr hyn rydyn ni'n ei wneud a rhoi cynnig ar bethau newydd.' **Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol**

---

## Gwreiddio creadigrwydd ar draws yr ysgol

Mae trosiant staff yr ysgol yn weddol isel; mae mwyafrif y rhai sydd wedi cymryd rhan ym mhrosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn dal i addysgu yn yr ysgol. Mae hyn wedi golygu bod gwreiddio'r dysgu wedi bod yn syml. Fodd bynnag, bu cymorth gan yr uwch dîm arwain hefyd yn hanfodol (gan gynnwys pan y newidiodd y Pennaeth). Arweinydd y Cyfnod Sylfaen a wnaeth ymgeisio am y cynllun i ddechrau ac mae'r Dirprwy Bennaeth wedi cymryd rhan ers hynny; ***“Mae'r setiau sgiliau rydyn ni wedi'u hennill o ran cymryd risgiau ac Arferion Creadigol y Meddwl yn dda ac mae [staff] yn gwybod y byddan nhw'n cael cefnogaeth gan y tîm arwain”.***

Mae'r corff llywodraethol hefyd yn gefnogol ac mae'r staff yn gweithio'n galed i ddangos tystiolaeth o welliant yn sgiliau'r disgyblion trwy'r cynllun gwella ysgol. Mae'r hyn a ddsygwyd ac adnoddau o'r prosiectau hefyd wedi'u rhannu mewn sesiynau pwrpasol yn ystod diwrnodau HMS, gan helpu i ddatblygu addysgeg ar draws yr ysgol. Nid yw'r ysgol wedi wynebu unrhyw rwystrau sylweddol wrth wreiddio creadigrwydd mewn dulliau dysgu ac addysgu.



Rhwymo llyfrau, creu papur a gwneud printiau yn yr awyr agored

## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r cwricwlwm newydd wedi ymddangos yn eithaf eang ac, ar adegau, yn annelwig i'r staff. Ers cymryd rhan yn y cynllun, mae'r staff yn teimlo'n fwy parod i arbrofi â'r cwricwlwm newydd ac yn teimlo mewn sefyllfa dda i addasu i'w flaenoriaethau. Ni fyddent o reidrwydd wedi mynd ati mor hyderus i ymwneud â'r cwricwlwm newydd pe na baent wedi cymryd rhan yn y cynllun. Mae dylunio eu cwricwlwm newydd wedi bod yn haws gan eu bod eisoes yn gyfforddus ag arbrofi a herio dysgwyr, gan roi cyfleoedd iddynt ddatrys problemau yn greadigol a chydweithio.

---

'Nawr ein bod ni'n symud i mewn i'r cwricwlwm newydd, mae pobl yn hapusach i roi cynnig ar rywbeth newydd. [Mae'r Cynllun] wedi ei gwneud hi'n haws dweud, gadewch i ni roi cynnig ar hyn, gadewch i ni edrych arno'n wahanol'. **Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol**

---

### Perthynas ag ymarferwyr creadigol

Mae'r ysgol wedi cadw mewn cysylltiad â rhai ymarferwyr creadigol y maent wedi gweithio gyda nhw dros y blynyddoedd. Mae'r staff yn dal i deimlo bod ganddynt berthynas â'r ymarferwyr hyn a gallant ofyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn y dyfodol. Yn wir, mae rhai ymarferwyr wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau, fel cynnal gweithdai ysgol gyfan a chynnal hyfforddiant staff.

### Galluogi gwaddol cadarnhaol

Gan fod mwyafrif y staff wedi cymryd rhan mewn prosiect ar ryw adeg yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw gwreiddio creadigrwydd ar draws yr ysgol wedi bod yn arbennig o heriol. Mae aelodau o'r uwch dîm arwain wedi bod yn ymwneud â phrosiectau ac maent yn gefnogol i ddulliau dysgu ac addysgu creadigol. Mae p'un a oes cronfeydd cyllid ar gael yn barhaus i gefnogi prosiectau creadigol yn bwysig iawn i'r ysgol, gan y byddent yn cael trafferth talu am ymarferwyr creadigol i weithio gyda dysgwyr fel arall. Mae'r staff hefyd yn teimlo bod ganddynt berthynas waith gadarnhaol â Chyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gwneud iddynt deimlo'n hyderus wrth archwilio syniadau newydd.

## 4.3 Astudiaeth Achos 3: Ysgol Gynradd Gymunedol Pontffranc

Cytunodd Ysgol Gynradd Gymunedol Pontffranc i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Mehefin 2023. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig â dau aelod o staff; y pennaeth (sydd hefyd yn athro dosbarth) ac athro.

Ysgol fach ym Mhowys yw Pontffranc, gyda dau athro amser llawn, un athro rhan amser a dau gynorthwydd cymorth dysgu. Mae pob un o'r tri athro wedi derbyn hyfforddiant trwy gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac mae'r cynorthwywyr cymorth dysgu wedi cael cyfle i weithio gyda'r ymarferwyr creadigol. Ar hyn o bryd mae 45 o ddysgwyr yn yr ysgol, sy'n cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth (dosbarth babanod a dosbarth iau). Cymerodd yr ysgol ran mewn dau gylch o gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn 2017 a 2018, yn ogystal â chymryd rhan yng nghynllun Cynefin (a oedd yn canolbwyntio ar brosiectau cydweithredol creadigol ar thema Cymru amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig) yn 2021-22. Fe wnaethant hefyd ddechrau gweithio ar linyn ysgol-i-ysgol y cynllun yn 2020 ond ni allent barhau unwaith i COVID-19 atal dysgu wyneb yn wyneb.

Dewisodd yr ysgol gymryd rhan yn y cynllun oherwydd eu bod eisoes yn ceisio meithrin perthnasoedd ag ymarferwyr creadigol yn annibynnol. I ddechrau, gwelsant y cynllun fel cyfle i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag ymarferwyr creadigol ac i ddatblygu'r partneriaethau hyn o fewn strwythur penodol. Yn ystod eu prosiect cyntaf, datblygodd y dosbarth iau lwybr mathemateg awyr agored i'r dosbarth babanod ei ddefnyddio. Yn ystod yr ail brosiect, gwnaethant ddefnyddio arferion adrodd storïau i helpu'r dysgwyr i groesawu amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd y prosiect ysgol-i-ysgol, na allent ei gwblhau, yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gadarnhaol yng nghyd-destun pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Roedd eu prosiect Cynefin yn canolbwyntio ar y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys gweithio gyda rhywun o'r cymunedau hynny i adeiladu pabell gloch.

### Y gwaddol ar gyfer dysgu ac addysgu

Gall y staff nodi sawl ffordd y mae cymryd rhan yn y cynllun wedi cael effaith hirdymor glir ar athrawon a dysgwyr.

Mae egwyddorion ac iaith Arferion Creadigol y Meddwl bellach yn sail i'w cwricwlwm. Maent yn cael eu defnyddio i hwyluso dysgu a datrys problemau ar draws yr ysgol. Dywed staff fod gan y dysgwyr bellach fwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dyfalbarhad, cydweithio a dychymyg. Er enghraifft:

---

'Mae yna waddol clir, parhaus, yn enwedig addysgu Arferion Creadigol y Meddwl. Rydyn ni wedi dal ati i addysgu'r rheini o'r cychwyn cyntaf ac rydyn ni'n eu defnyddio nhw'n rheolaidd...mae'r plant yn ymwybodol iawn ohonyn nhw ac yn hunanwerthuso yn eu herbyn mewn rhai amgylchiadau.' **Pennaeth**

'Mae hyd yn oed y plant ifanc yn siarad am ddefnyddio eu 'dyfalbarhad' a'u 'dychymyg' - mae hyd yn oed plant pump oed yn defnyddio'r geiriau hynny, sy'n anhygoel yn fy marn i.' **Athro babanod**

---

Mae'r athrawon yn parhau i annog Arferion Creadigol y Meddwl ymhlith y dysgwyr. Er enghraifft, yn ystod un o'u prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol fe wnaethant ddysgu gêm a oedd yn hybu dychymyg y dysgwyr; maent wedi parhau i ddefnyddio'r gêm hon yn ystod amser cylch.

Mae'r athrawon yn defnyddio gweithgareddau a dulliau creadigol a ddysgwyd ganddynt yn ystod prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rheolaidd wrth addysgu o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio o 'seibiannau bach i'r meddwl' yn rheolaidd i helpu'r dysgwyr i gael egni a ffocws o'r newydd, yn enwedig yn ystod diwrnodau lansio prosiect; ***“Mae lles wedi bod yn bwysig iawn. Mae gennym ni ddawns hapus bob dydd, llawer o seibiannau i'r meddwl, ac mae gennym ni ddawns y mis”.***

Enghraifft arall yw cuddio amlenni o amgylch y dosbarth gyda chodau i'r dysgwyr eu dilyn. Mae'r staff yn ystyried y mathau hyn o weithgareddau fel ffordd anfygythiol i ddysgwyr ymlacio a threulio amser gyda'i gilydd.

Mae gan yr ysgol hefyd berthynas barhaus ag ymarferwyr creadigol y buont yn gweithio gyda nhw yn ystod prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. **“Rydyn ni'n ystyried bod rhai o'r rhain yn rhan o gymuned yr ysgol”**. Mae'r ysgol yn ariannu rolau'r ymarferwyr creadigol o'i chyllideb graidd, sy'n golygu mai dim ond am ddiwrnod neu ddau ar y tro y gallant weithio gydag ymarferwyr creadigol. Mae'r staff yn dal i ystyried bod hyn yn fuddiol i'r dysgwyr, er nad yw'r gwaith mor ddwys â phrosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ac mae gan ddysgwyr rywfaint yn llai o berchnogaeth dros y gweithgareddau creadigol.

Mae cymryd rhan yn y cynllun hefyd wedi cryfhau defnydd yr ysgol o lais y disgybl. Mae'r athrawon yn fwy hyblyg nag o'r blaen yn eu gallu i addasu i farn dysgwyr. Ar ddechrau pob pwnc, mae'r dysgwyr yn dweud wrth yr athrawon beth hoffent ei ddysgu ac mae'r athrawon yn teimlo eu bod bellach yn fwy ymatebol nag o'r blaen.

O ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun, mae'r athrawon hefyd yn dweud bod y dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i weithio gyda'r dosbarth arall. Yn dilyn ymlaen o'r elfen adrodd storïau yn eu hail brosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae dysgwyr yn adrodd storïau ar ffurf 'cyfaill', sy'n golygu eu bod yn mynd i'r ystafell ddosbarth arall i adrodd storïau wrth y dysgwyr yno.

Yn ogystal, teimlai'r staff fod strwythur y cynllun yn caniatáu i athrawon neilltuo mwy o amser nag arfer i fyfyrion ar gynnydd y dysgwyr, trwy drafodaethau gyda'r ymarferwyr creadigol.

### Cwricwlwm i Gymru

Mae'r staff wedi canfod bod Arferion Creadigol y Meddwl yn cefnogi datblygiad pedwar diben y cwricwlwm yn berffaith. Teimlwyd bod Arferion Meddwl Creadigol yn darparu **“rhesymau ystyrion a dilys dros fod yn uchelgeisiol, galluog...ac mae hefyd wedi cyflwyno'r syniad o fod yn ddinasyddion moesegol”**. Mae cymryd rhan mewn perfformiadau creadigol, er enghraifft, wedi annog y dysgwyr i ddod yn unigolion iach, hyderus. Maent yn gweld bod modd cymhwyso Arferion Creadigol y Meddwl ar draws pob un o'r chwe maes dysgu, gan eu helpu i ddatblygu dull cyfannol o ddysgu a sicrhau bod pob elfen yn cael ei chyflwyno mewn ffordd creadigol.

---

'Fyddai'r newidiadau hyn ddim wedi digwydd heb gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Holl faes Arferion Creadigol y Meddwl, fydden ni ddim wedi bod yn ei ddefnyddio. Fydden ni ddim wedi cael yr un cysylltiadau ag ymarferwyr creadigol. Mae wedi helpu'r athrawon o ran addysgeg a chymhelliant, mae'n ffordd hwyliog i addysgu. Byddai'r plant wedi cael cyfleoedd ond nid cymaint. Hefyd, fydden ni byth wedi cymhwyso [dulliau creadigol] ar draws pob maes pwnc.' **Pennaeth**

---

## Rhwystrau

Cyllid yw'r prif rwystr y mae'r ysgol yn ei wynebu wrth geisio mabwysiadu dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu. Ysgol fach gyda chyllideb fach yw Ysgol Pontffranc ac felly ni all ariannu cymaint o rôl gan ymarferwyr creadigol ag yr hoffent. Mae cynnydd mewn costau byw hefyd yn ei gwneud yn heriol darparu profiadau creadigol i ddysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth, oherwydd gall costau fel cludiant fod yn afresymol. Mae'r ysgol wedi elwa ar grantiau Ewch i Weld Cyngor Celfyddydau Cymru i'w helpu i roi profiadau newydd i'w dysgwyr.

Er bod llawer o'r hyn a ddysgwyd o gymryd rhan wedi'i wreiddio yn addysgeg yr ysgol, mae'r pennaeth yn poeni ychydig am yr effeithiau'n lleihau dros amser. Dywedodd y gallai cyfle i gymryd rhan mewn rhywfaint o hyfforddiant neu brosiectau 'diweddarau' fod yn ddefnyddiol i sicrhau nad yw ysgolion yn colli eu momentwm.


## Cefnogaeth y tîm arwain

Mae'r staff yn dweud bod llywodraethwyr yr ysgol wedi bod yn frwdfrydig ynghylch prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ac am y gwaddol ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae'r llywodraethwyr wedi chwarae rôl amlwg, er enghraifft wrth ddod i ddiwrnodau perfformio a sesiynau gweithgareddau creadigol. Gan mai ysgol fach yw hi, mae pob athro a chynorthwydd cymorth dysgu wedi cael y cyfle i dderbyn hyfforddiant a/neu weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr creadigol. Mae'r athrawon yn teimlo bod hyn, ynghyd â chefnogaeth y llywodraethwyr, yn golygu bod yr hyn a ddysgwyd o brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i wreiddio'n weddol hawdd ar draws yr ysgol.

## 4.4 Astudiaeth Achos 4: Ysgol Tudno

Cytunodd Ysgol Tudno i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Mehefin 2023. Cynhaliwyd cyfweiliad lled-strwythuredig ag athrawes blwyddyn pump (Cydlynnydd Rhifedd a'r Cwricwlwm i Cymru), sydd hefyd yn gwneud gwaith gyda'r celfyddydau yn yr ysgol.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf yw Ysgol Tudno, yng Nghonwy. Roeddent yn rhan o garfan gyntaf cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol; buon nhw'n cynnal prosiectau creadigol am ddwy flynedd cyn treulio trydedd flwyddyn yn cynorthwyo ysgolion eraill yn eu dalgylch fel rhan o ail llyn y cynllun. Penderfynon nhw gymryd rhan am fod y cwricwlwm yn debygol o ddechrau newid yn y blynnyddoedd i ddod ac roedden nhw eisiau ymchwilio i wahanol fathau o addysgeg, felly cymryd rhan oedd y cam cyntaf ar y llwybr hwn. Dod â rhifedd a chreadigrwydd i mewn i addysgu bob dydd oedd ffocws eu prosiectau, gan gynnwys 'cestyll y dreigiau' fel thema.



Prosiect gydag Oriol Mostyn

### Y gwaddol ar gyfer dysgu ac addysgu

O ganlyniad i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol, mae athrawon Ysgol Tudno yn frwd dros ddefnyddio ymarferwyr creadigol i ychwanegu gwerth at eu harferion addysgu ac i ddarparu profiadau cyffrous i ddysgwyr. Mae'r ysgol wedi bod yn awyddus i adeiladu partneriaethau cryf gydag ymarferwyr creadigol lleol sy'n cydweithio â'r ysgol ar brosiectau amrywiol. Yn benodol, mae'r ysgol wedi meithrin perthynas ag Ensemble Cymru, Oriol Mostyn ac Opera Cenedlaethol Cymru.

---

'Mae cael rhywun mewn yn personoli'r thema mwy...yn neud e'n rhywbeth 'special' sydd yn ysgogi ond hefyd yn gwneud l'r plant weld e fel rhywbeth gallen nhw wneud.'<sup>6</sup>

---

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu perthynas ag Ensemble Cymru (yn rhannol oherwydd gŵyl Cymerwch Ran flynyddol Venue Cymru, sy'n cael ei chefnogi gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy). Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda cherddorion Ensemble Cymru i greu deunydd ar gyfer sioeau radio ar y sioe radio gymunedol 'Radio Ensemble Cymru'. Mae'r athrawon yn teimlo bod y gwaith hwn wedi bod yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr a bod ***“gwrando ar y perfformiadau amrywiol wedi galluogi'r plant i brofi llw o gyfryngau, datblygu sgiliau meddwl yn annibynnol a sgiliau iaith mynegiannol.”***<sup>7</sup>

Datblygodd yr ysgol hefyd brosiect blwyddyn o hyd gydag Opera Cenedlaethol Cymru, yn canolbwyntio ar godi hyder y dysgwyr trwy ganu a pherfformio.

---

<sup>6</sup> Dyma'r geiriad gwreiddiol yn Gymraeg.

<sup>7</sup> Adroddiad gan athrawes blwyddyn pump, Adroddiad gan Derfel Thomas, Ysgol Tudno i Ensemble Cymru

Mae cymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn golygu bod yr athrawon yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd darparu profiadau i ddysgwyr, nid dim ond addysgu 'ffeithiau' iddynt. Mae wedi eu cefnogi i edrych ar wahanol fathau o addysgeg, datblygu syniadau am sut i bersonoli'r cwricwlwm a sut i wneud cysylltiadau effeithiol rhwng addysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r byd y tu allan. Dywedodd yr athro fod hyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb i egwyddorion y cwricwlwm newydd, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu arbrofol.



Cerddorion o Ensemble Cymru gyda'r disgyblion

Mae'n annhebygol y byddai'r ysgol wedi gwneud cynnydd mor gyflym o ran darparu profiadau i'r dysgwyr pe na baent wedi cymryd rhan yn y cynllun. Maent yn canfod bod darparu profiadau creadigol yn arbennig o bwysig mewn ardal ddifreintiedig fel eu hardal nhw, oherwydd efallai na fydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd o'r fath y tu allan i'r ysgol.

### Rhwystrau

Mae cyllid i dalu am weithgareddau creadigol ac amser ymarferwyr creadigol yn rhwystr parhaus i'r ysgol, er eu bod wedi bod yn ffodus i gael cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru i helpu. Heb y cyllid hwn, ni fyddent yn gallu cynnig y cyfleoedd y maent yn dymuno eu cynnig i'r dysgwyr.

## 4.5 Astudiaeth Achos 5: Ysgol Aberconwy

Cytunodd Ysgol Aberconwy i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Mehefin 2023. Cynhaliwyd cyfweiliad lled-strwythuredig â phennaeth cynorthwyol. Rhannwyd fideo am ddatblygiad cwricwlwm creadigol yr ysgol hefyd â'r tîm ymchwil, fel tystiolaeth ychwanegol.

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghonwy yw Ysgol Aberconwy. Maent wedi cymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol bron bob blwyddyn ers 2016. Datblygodd eu blaenoriaethau ar gyfer eu prosiectau dros amser. I ddechrau, gwnaethant gynnal prosiect gydag un dosbarth a dau artist, gan geisio deall beth fyddai effaith cael artistiaid a disgyblion i gydweithio. Datblygodd eu prosiectau wedyn o ran eu cymhlethdod a'u pwyslais; roeddent yn canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg athrawon ac yn canolbwyntio ar gydgyhyrchu.



## Y gwaddol ar gyfer addysgu

Dywedwyd bod effaith hirdymor cymryd rhan yn y cynllun yn sylweddol ac yn eang. Roedd hyn am fod yr ysgol wedi ymgymryd â'r cynllun gyda gwaddol mewn golwg; **“y bwriad o’r dechrau oedd creu gwaddol o ran sgiliau ac o ran cynnwys, fel y gallem ni adeiladu ar yr hyn roeddem ni wedi’i wneud”**. Roedd ffocws prosiectau’r Ysgolion Creadigol Arweiniol felly ar ddatblygu sgiliau athrawon mewn ffordd gynaliadwy. Er enghraifft, mewn un prosiect buont yn gweithio gyda chwe athro a phedwar artist, a chrëwyd pedwar grŵp dysgu yn seiliedig ar brosiect. Roedd y grwpiau hyn yn aml-ddisgyblaethol ac roedd disgwyl i’r athrawon weithio y tu allan i’r ysgol, gweithio y tu allan i’w cylch cysurus a mabwysiadu dulliau cydgynllunio – neu gyd-adeiladu – gyda’r dysgwyr. Ystyriwyd bod y pwyslais ar gyd-adeiladu yn bwysig i egwyddorion y cwricwlwm newydd.



Athrawon mewn trafodaeth ag ymarferydd creadigol

Mewn prosiect ysgol-i-ysgol, gwnaethant arbrofi â dysgu yn yr awyr agored a dysgodd yr athrawon i 'feddwl ar raddfa fawr' a'i bod yn bwysig iawn neilltuo amser i fyfyrion. Mewn prosiect arall, a gynhaliwyd yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19, aeth yr ysgol gam yn bellach ar gyd-gynllunio, wrth i ddysgwyr ac athrawon gydweithio i

greu arddangosfa ddigidol ynglŷn â diwedd cyfyngiadau COVID-19. Yn eu prosiect yn 2021, mabwysiadodd yr ysgol fwy o *“feddwl radical”* am waddol y prosiect. Yn y prosiect hwn, bu wyth aelod o staff o feysydd pwnc craidd yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol ar addysgeg bur. Byddai’r ymarferwyr creadigol yn 'gyfeillion creadigol' i’r athrawon, gan weithio ochr yn ochr â nhw i’w harwain, cydgynllunio a'u cefnogi i fentro yn eu dulliau addysgu.

---

'Roedd cwlwm cryf rhwng yr ymarferwyr a'r athrawon, roedden nhw wedi mynd ar y daith hon nad oedden nhw erioed wedi bod arni o'r blaen ac roedd yn fwy o berthynas gyfartal a chyfle i ddarganfod gyda'i gilydd.'

### **Asiant creadigol**

---

O’r cychwyn, felly, dyluniodd yr ysgol ei phrosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddatblygu sgiliau, addysgeg a meddylfryd athrawon, a thrwy hynny sicrhau bod y prosiectau’n gadael gwaddol yn yr ysgol.

---

'Ym mhob un o'r prosiectau rydyn ni wedi'u gwneud, rwy'n meddwl ein bod ni wedi gadael gwaddol gwell. Roedden ni eisiau cael effaith enfawr ar yr athrawon felly dyma ni'n penderfynu'n gynnar iawn nad oedd yr ymarferwyr creadigol yn mynd i weithio'n uniongyrchol gyda'r disgyblion. Roedd yr ymarferwyr creadigol yn mynd i weithio gyda'r athrawon ac roedden nhw am gynorthwyo'r athrawon i roi cynnig ar wahanol fathau o addysgeg, rhoi cynnig ar wahanol weithgareddau creadigol, gan roi eu cymorth a'u harbenigedd iddyn nhw, a bod yn gyfaill beirniadol.'

**Pennaeth cynorthwyl**

---

Bu effaith ganlyniadol ar gynlluniau cwricwlwm adrannol, lle mae'r dulliau a ddysgwyd yn ystod y prosiectau yn amlwg. O ganlyniad i gymryd rhan, mae wedi dod yn fwy normal ymhlith staff i addysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, cynnwys dysgwyr yn y gwaith cynllunio, ac addasu i anghenion newidiol y dysgwyr. Mae'r athrawon sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn cymryd mwy o risgiau yn eu dulliau addysgu; er enghraifft, dechreuodd athro mathemateg fynd â'r dysgwyr allan o'r ystafell ddosbarth, gan gydnabod bod eu gwersi wedi mynd ychydig yn sobr.

---

'Rwy wedi gweld pobl yn gweithio gyda'i gilydd, llawer mwy o gydweithio, yn gwthio eu hunain ac rwy wedi gweld perthnasoedd rhwng staff a myfyrwyr yn gwella. Er enghraifft, gofynnodd un o'r athrawon gwyddoniaeth i'r disgyblion beth roedden nhw eisiau ei roi yn y dŵr yn eu harbrawf ac mae hynny'n eu cynnwys yn y cynllunio, yn eu gwersi, gan roi perchnogaeth iddyn nhw. Gall hynny gael ei wneud mewn unrhyw gynllun neu waith mewn unrhyw wers, felly dyna'r meddylfryd, dyna'r cyfeiriad.'

**Pennaeth cynorthwyl**

---

Nodwyd ei bod yn anodd cael tystiolaeth o'r newidiadau hyn, gan mai diwylliant yr ysgol a'r teimlad ymhlith y staff addysgu yw'r cyfan. Fodd bynnag, awgrymwyd trwy'r Cynllun bod yna ddealltwriaeth gynyddol bod lle i greadigrwydd ym mhob maes pwnc a bod creadigrwydd yn ganolog i'r broses addysgiadol.

## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r ysgol bob amser wedi gweithio i gysylltu ei phrosiectau diweddar â'r cwricwlwm newydd. Roedd cymryd rhan yn ffordd i annog staff i fod yn arloesol ac i fentro o ran y cwricwlwm newydd. Roeddent hefyd am i ymarferwyr creadigol chwarae rhan wrth ddatblygiad cwricwlwm creadigol. Mae hyn wedi arwain at gydweithio gwirioneddol ar draws gwahanol feysydd dysgu a phrofiad.



Creadigrwydd yn y dosbarth

---

**'Mae addysgeg creadigol wedi'i datblygu ymhlith nifer fawr o athrawon ac adrannau. Mae dysgu seiliedig ar brosiect yn rhan ganolog o arlwy'r Cwricwlwm Newydd.'** **Pennaeth cynorthwyol**

---

Er enghraifft, bu'r adran fathemateg yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol fel rhan o'r prosiect ac yn cynnal gweithgareddau creadigol gyda'r dysgwyr, fel mynd allan i ddod o hyd i wahanol fathau o onglau yn y byd go iawn a defnyddio eu ffonau fel rhan o her gyfeiriannu. Yn dilyn ymlaen o'r adborth cadarnhaol a gawsant gan eu dysgwyr am weithgareddau creadigol o'r fath, gwnaeth yr athrawon mathemateg gyfarfod i drafod sut y gellid cynnwys gweithgareddau creadigol yn y MDPH newydd, yn enwedig ar gyfer pynciau y mae athrawon yn ei chael yn anodd eu haddysgu'n creadigol.

## Gwreiddio ar draws yr ysgol

Dywedwyd y bu ***"datblygiad addysgegol nid ar draws yr holl staff ond ar draws nifer sylweddol iawn o aelodau staff"*** gydag effaith sylweddol mewn rhai meysydd pwnc, fel y celfyddydau mynegiannol a dylunio a thechnoleg. Mae athrawon yn y pynciau hyn yn canolbwyntio mwy ar broses yn hytrach na'r cynnyrch terfynol yn unig o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er y caiff ei gydnabod nad oeddent byth am addasu sgiliau a meddylfryd holl staff yr ysgol, maent yn falch o'r nifer sylweddol o staff sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r prosiectau.

Yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn cynnal prosiectau creadigol gyda dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 ac 11, oherwydd gofynion arholiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn rhwystr arbennig gan mai prif nod eu prosiectau creadigol yw datblygu addysgeg athrawon, y gellir ei gyflawni gydag unrhyw grŵp blwyddyn.

Maent wedi cyrchu ffrydiau ariannu eraill o bryd i'w gilydd, er enghraifft gan Film Cymru yn 2019. Fodd bynnag, maen nhw'n credu mai'r ffactor mwyaf arwyddocaol "**yw'r ffordd o feddwl, meddylfryd**". Mae hyn yn golygu bod gan athrawon yr hyder i fynd â dysgwyr allan o'r ystafell ddosbarth, hyd yn oed heb brosiect wedi'i ariannu; er enghraifft, mae athrawon yn mynd â dysgwyr i ymweld ag oriel gelf leol.

---

'Maen nhw [athrawon sy'n ymwneud â'r prosiectau] yn eithaf hyderus yn y dulliau newydd hynny ac maen nhw'n eithaf hyderus bod y dulliau hynny wedi dal sylw'r disgyblion ... y cam nesaf yw iddyn nhw ddatblygu cynllun newydd neu ailwampio cynllun presennol a'r cam olaf yw iddyn nhw rannu'r cynllun hwnnw a meithrin hyder eu hadrannau i gyflawni'r cynllun hwnnw.' **Pennaeth cynorthwyol**

---

## 4.6 Astudiaeth Achos 6: Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg

Cytunodd yr ysgol i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd cyfweiliad lled-strwythuredig ag athro a fu'n gyfrifol am brosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cafwyd sylwadau ychwanegol gan bennaeth yr ysgol yn eu hymateb i arolwg ysgolion Wavehill.

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn pedwar prosiect trwy'r cynllun, a chynhaliwyd yr olaf o'r rhain yn 2020. Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored, mathemateg, adrodd storïau a TGCh ac fe'u cynhaliwyd gydag un neu fwy o grwpiau blwyddyn ar y tro. Cymerodd yr ysgol ran hefyd yn llinyn ysgol-i-ysgol y cynllun, gan weithio gydag ysgol arall i ddefnyddio sgrin-brintio fel rhan o'u dysgu ac addysgu.

### [Y gwaddol ar gyfer dysgu ac addysgu](#)

Roedd gan yr holl athrawon a oedd yn gweithio yn yr ysgol ar yr adeg y cynhaliwyd y prosiectau o leiaf rywfaint o rôl i'w chwarae, fel gweithio ochr yn ochr ag ymarferydd creadigol. Dywedwyd bod rhai athrawon wedi adeiladu setiau sgiliau newydd yn ystod y prosiectau a'u bod yn dal i'w defnyddio wrth addysgu.

---

'Rwy'n meddwl bod yr athrawon sy'n naturiol yn fwy creadigol wedi croesawu'r [prosiectau] ac wedi adeiladu eu setiau sgiliau. Roedd eraill sy'n llai creadigol yn naturiol yn cydnabod y gwerth ond fel arfer yn gofyn i eraill am gymorth. Felly mae hyn yn dda ond byddai mwy o effaith hefyd wedi bod yn dda.' **Athro**

---

Er enghraifft, mae athro a gymerodd ran yn y prosiect adrodd storïau yn dal i ddefnyddio arferion adrodd storïau yn eu hystafell ddosbarth dair blynedd yn ddiweddarach. Gwnaeth athro a gymerodd ran yn y prosiect sgrin-brintio ddatblygu'r sgiliau i allu mynd ati i sgrin-brintio yn annibynnol gyda'r dysgwyr, ac maent yn dal i wneud hynny heddiw. Mae Arferion Creadigol y Meddwl hefyd wedi cael effaith hirdymor ar y ffordd y mae athrawon yn meddwl am eu dulliau addysgu:

---

'Mae'n sicr wedi cael effaith arnaf i ac wedi gwneud i mi feddwl am sut ydw i'n gosod fy ystafell ddosbarth, nad yw popeth yn ddigyfnewid, a bod yn fwy hyblyg.' **Athro**

---

Mae'r prosiectau hefyd wedi helpu'r ysgol i **“harddu tiroedd yr ysgol ac rydyn ni’n gwneud defnydd cynyddol ohonyn nhw”**. Mae cymryd rhan yn y prosiectau wedi arwain at fod athrawon yn fwy tebygol o fynd â dysgwyr y tu allan i ddysgu. Yn ystod un o’r prosiectau, a oedd yn canolbwyntio ar fathemateg a’r amgylchedd, bu ymarferydd creadigol yn gweithio gyda’r dysgwyr i greu atgynhyrchiad bach o eglwys y pentref leol o bren helyg. Mae'r 'eglwys' hon yn dal ar yr iard ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer amser stori ac wrth chwarae.

### [Perthynas ag ymarferwyr creadigol](#)

Datblygodd yr ysgol berthynas dda iawn â'r ymarferwyr creadigol, yn enwedig yr ymarferydd a fu'n gweithio gyda nhw i ddatblygu'r 'eglwys' o bren helyg. Maent wedi cynnal y berthynas hon ers cwblhau'r prosiect. Nid yw'r ysgol yn gallu talu am amser yr ymarferydd creadigol, ond mae'r ymarferydd wedi cysylltu â'r ysgol i'w cynnwys mewn prosiectau eraill. Er enghraifft, derbyniodd yr ymarferydd arian o rywle arall i gynnal prosiect lleol yn ymwneud â choed gan wahodd yr ysgol i ymuno. Mae'r athro sy'n gyfrifol am brosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd wedi cynnal perthynas waith dda â'r ymarferydd creadigol, gan rannu syniadau a dysgu gyda'i gilydd, sy'n helpu i ddatblygu arferion y naill a'r llall.

### [Cwricwlwm i Gymru](#)

Ar yr adeg yr ymgynghorwyd â hi, roedd yr ysgol yng nghyfnod cynllunio'r cwricwlwm newydd, ac yn ystyried *beth* fyddant yn ei gyflawni. Awgrymwyd unwaith y byddant yn dechrau ystyried *sut* i gyflawni eu cwricwlwm newydd, y byddai'r hyn a ddysgwyd o brosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn arbennig o ddefnyddiol.

---

'Rwy'n hoffi meddwl y byddai [y newidiadau hyn] wedi digwydd ond fydden nhw ddim wedi digwydd eto. Mae'r prosiectau wedi ein symud ar hyd y continwmm tuag at y cwricwlwm newydd.' **Athro**

---

Mae gweithio ar gwricwlwm newydd hefyd wedi rhoi'r cyfle i edrych ar addysgeg drwy lygaid newydd, felly mae'r ysgol yn rhagweld cyfleoedd i ddod â chreadigrwydd i mewn i'r cwricwlwm lle efallai na fyddent wedi meddwl gwneud hynny o'r blaen.

Yn sgil cymryd rhan yn y cynllun, mae dealltwriaeth gryfach hefyd yn yr ysgol am y cysylltiad rhwng creadigrwydd a lles – yn enwedig ar ôl COVID – ac mae gan yr ysgol bellach becyn cymorth o syniadau ynghylch creadigrwydd y gall staff eu defnyddio i gefnogi lles.

### Rhannu'r hyn a ddysgwyd

Gan fod pethau ffisegol i'w hatgoffa o'r gweithgareddau creadigol y maent wedi'u cynnal o amgylch yr ysgol, mae staff newydd (nad oeddent yn bresennol yn ystod y prosiectau) yn gweld enghreifftiau'n rheolaidd o sut y gallent gynnwys creadigrwydd yn eu haddysgeg. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai'r ysgol fwy na thebyg wneud mwy i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau ag aelodau newydd o staff; mae hyn wedi bod yn anodd yn sgil newidiadau yn ymwneud â COVID-19, ac wrth ganolbwyntio ar y cwricwlwm newydd.

Mae'r ysgol hefyd yn ysgol hyfforddi ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol, felly maent yn siarad ag athrawon dan hyfforddiant am brosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ac yn dangos y dystiolaeth iddynt o amgylch yr ysgol. Mae'n ymddangos bod yr athrawon dan hyfforddiant yn mwynhau gweld pa mor frwd yw'r dysgwyr am ddysgu creadigol.

### Heriau

Dywedodd yr ysgol ei bod yn cymryd amser i rai athrawon addasu i'r syniad o ffordd wahanol o weithio, yn enwedig y rhai a fu'n addysgu ers blynyddoedd lawer. Roedd angen newid meddylfryd o ystyried bod cymryd rhan yn y cynllun yn canolbwyntio ar y celfyddydau, a meddwl yn ehangach am greadigrwydd.

---

'Yn y dechrau, roedd teimlad ein bod yn cael artist preswyl, neu'n 'gwneud mwy o gelf', ond mewn gwirionedd mae'n fater o wneud popeth yn fwy creadigol.' **Athro**

---

Gwnaeth y berthynas waith gadarnhaol a ddatblygodd yr ysgol â'r ymarferwyr creadigol helpu i raddau, gan annog athrawon i weithio ochr yn ochr â'r ymarferwyr i ddatblygu eu dulliau addysgu.

## 4.7 Astudiaeth Achos 7: Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff

Cytunodd Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff i siarad â thîm ymchwil Wavehill ym mis Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd cyfweiliad lled-strwythuredig ag Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Abertawe yw Ysgol San Joseff. Fe wnaethant gymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn 2016-17 a 2017-18. Dyma'r ail brosiect a chaiff ei ystyried mai dyma'r un mwyaf llwyddiannus i'r ysgol. Roedd 'Taith' yn brosiect i glwstwr o ysgolion a arweiniwyd yn bennaf gan Ysgol San Joseff. Canolbwyntiai ar daith o archwilio trwy dreftadaeth eu hysgol, eu cymuned leol a'r eglwys gadeiriol. Thema ganolog y prosiect oedd mewnfudwyr o Iwerddon yn ymgartrefu yn y 1850au a defnyddiodd y disgyblion ddulliau creadigol fel castio â llaw i **“gynrychioli cymuned, cydberthynas ac undod”**.<sup>8</sup>

Mae'r ysgol hefyd wedi cael mynediad at grantiau a chynlluniau eraill Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys grantiau Cydweithio Creadigol ac Ewch i Weld (sy'n cael eu trafod ymhellach isod).



Cerflun noddfa

### Gwaddol – prosiectau a phartneriaethau

Caiff ei ystyried bod bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol wedi chwarae rhan allweddol wrth i Ysgol San Joseff ddod yr ysgol gyntaf yn Abertawe i fod Ysgol Noddfa ym mis Mehefin 2019. Rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion yw Ysgolion Noddfa sydd wedi ymrwymo i greu diwylliant o gynhwysiant ar gyfer ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches. Cafodd y gwaith a gynhyrwyd gan ddisgyblion trwy brosiect Taith ei arddangos yn y Tate Modern (y Tate Exchange), y Senedd ac Amgueddfa Abertawe ymhlith eraill. Siaradodd disgyblion am brosiect Taith yng Nghanolfan Celfyddydau Taliesin, lle awgrymodd cynrychiolydd o Ddinas Noddfa eu

bod yn dechrau gweithio tuag at statws Ysgol Noddfa.

<sup>8</sup> [Mae rhagor o fanylion am y prosiect ar gael ar-lein fan yma](#)

Bu'r ysgol yn gweithio gydag ymarferydd creadigol o prosiect Taith – a ariannwyd trwy gronfeydd yr ysgol ei hun – i gyflawni statws Ysgol Noddfa. Yn ogystal â'u cefnogi i fod yn Ysgol Noddfa, roedd bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol hefyd wedi ysbrydoli'r ysgol, ac Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol yn benodol, i ddatblygu ystod eang o bartneriaethau a phrosiectau creadigol. Yn ôl Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol, i'r cynllun y mae'r diolch am lawer o'r brwdfrydedd a ysgogodd yr ysgol i chwilio am brosiectau creadigol newydd trwy amryw ffrydiau ariannu a chyda phartneriaid amrywiol.

---

'Fel ysgol mae ein gwaith gyda'r celfyddydau mynegiannol yn gryf iawn ac yn gryfder gwirioneddol ac ar hyn o bryd mae'n flaenoriaeth i'r ysgol ar gyfer 2022-2023. Rydyn ni'n gobeithio datblygu ein gwaith amlgyfrwng, tecstilau e.e. batik, dull Shibohri o Japan o glymu a lliwio defnydd, a datblygu dulliau drymio Affricanaidd, cerflunwaith gyda chlai a sgrinbrintio sidan, a datblygu ein gwaith gyda metelau a cherfluniau fel rhan o'n gwaith parhaus... Mae llawer o'r ysbrydoliaeth a'r cysylltiadau ag artistiaid i weithio gyda ni ar y mentrau hyn wedi dod o ganlyniad i'n rhan ym mhrosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.'

---

Yn ddiweddar, arweiniodd yr ysgol brosiect a oedd yn cynnwys cydweithio ag Oriol Glynn Vivian (Oriol Noddfa gyntaf y Deyrnas Unedig) a'r chwe ysgol y dyfarnwyd statws Ysgol Noddfa Abertawe iddynt yn ddiweddar. Yn dilyn cystadleuaeth ysgol, bu modd iddynt weithio gydag ymarferydd creadigol i wireddu gweledigaeth yr ysgol o greu logo Ysgol Noddfa Abertawe.

---

'Fel rhan o'n gwaith parhaus ar Ysgolion Noddfa rydyn ni'n gobeithio cysylltu â Gwasanaeth Cerddoriaeth Abertawe i gyfansoddi Cân Noddfa Abertawe ar gyfer ysgolion lleol ond y freuddwyd fyddai cân Cenedl Noddfa Cymru!'

---



Cwch copr a gynhyrchwyd fel rhan o waith y disgyblion yn dysgu am y diwydiant copr

Ar ôl bod yn aflwyddiannus gyda chais am grant arall Ysgolion Creadigol Arweiniol, llwyddodd yr ysgol i ennill grant Cydweithio Creadigol. Roedd y prosiect Cydweithio Creadigol – Prosiect Celf Working Whispers – yn uchelgeisiol, gan fod yr ysgol yn gweithio gyda phump o ymarferwyr creadigol. Defnyddiodd y prosiect gyfuniad o ddisgyblaethau creadigol fel gwneud printiau, cerflunwaith, dawns ac ysgrifennu creadigol i archwilio treftadaeth y diwydiannau glo a chopr lleol (Copperopolis Abertawe).



---

'Mae wedi helpu'r holl gyfranogwyr i gael gwell dealltwriaeth o sut y gall ymagwedd amlddisgyblaethol, fynegiannol, ymdrochol wella prosesau dysgu a darparu safbwyntiau newydd i blant fel cynhyrchwyr a gwylwyr celf.'<sup>9</sup>

---

Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu partneriaethau parhaus ag Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r Athro Sergei Shubin yn y Ganolfan Ymchwil Polisi Ymfudo ym Mhrifysgol Abertawe. Yn benodol, cysylltiad rhwng prosiect Taith a phrosiect Social Support and Migration in Scotland (SSAMIS) y Brifysgol a wnaeth themâu prosiect Taith yn fwy cyfoes. Cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau a oedd yn ein galluogi i archwilio themâu ymddiriedaeth a pherthyn, ac edrych ar sut rydym yn ymgysylltu ac yn gweithio gydag unigolion a grwpiau mwy sy'n newydd i'n gwlad a'n cymunedau.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau â phrosiect PACONDAA y Brifysgol, sy'n dod ag ymchwilwyr at ei gilydd sy'n ceisio lleihau tldi drwy atal clefydau yn India, Bangladesh a'r Deyrnas Unedig. Cynhyrchodd disgyblion o'r ysgol waith celf mewn ymateb i waith celf a phaentiadau Bangladeshaid a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect hwn; gwnaethant greu cardiau post o fywyd yn Abertawe a chyd-gynhyrchu llyfr stori yn cynnwys straeon plant Bangladeshaid.<sup>10</sup>



Disgyblion yn gweithio gyda Theatr Volcano

Drwy gydweithrediad â Chwmni Theatr Volcano, bu disgyblion yn gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau o'r enw 'Growing Together' a 'Let's Connect', gan edrych ar eu cymunedau lleol. Diolch i grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, bu disgyblion blwyddyn pump hefyd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Symud, Catherine Bennett, ar brosiect theatr gwreiddiol – Change is Gonna Come – a berfformiwyd yn y Theatr.

Mae'r ysgol hefyd wedi manteisio ar grantiau Ewch i Weld Cyngor Celfyddydau Cymru lle bynnag y bo'n bosibl, er enghraifft, aeth disgyblion i weld perfformiad Theatr na nÓg, a pherfformiadau ymdrochol yn Theatr Volcano, ac aethant ar ymweliad â'r Tate Modern i weld eu gwaith celf yn cael ei arddangos.

---

<sup>9</sup> Mwy o fanylion ar gael [ar-lein fan yma](#)

<sup>10</sup> Mae mwy o fanylion am brosiectau'r Brifysgol ar gael [ar-lein fan yma](#)

## Partneriaethau ag ymarferwyr creadigol

Mae'r ysgol wedi cynnal partneriaethau gwaith da ag ymarferwyr creadigol o'u prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol ac eraill, gan weithio'n rheolaidd gydag artistiaid fel Bronwen Lewis, Bill Taylor-Beales a Sarah Tombs. Lle bo'n bosibl, mae'r ysgol yn ceisio parhau i weithio gydag ymarferwyr creadigol sydd, yn eu barn nhw, wedi bod yn arbennig o werthfawr i ddatblygiad y disgyblion, er enghraifft *"fel rhan o sicrhau grant adferiad dysgu COVID-19 i weithio gyda'r gantores-gyfansoddwraig Bronwen Lewis, fe wnaethom ni fuddsoddi arian o gronfeydd eraill yr ysgol er mwyn iddi ddod i mewn a gweithio gyda thri grŵp blwyddyn arall i gyfansoddi a datblygu eu hanthemau dosbarth dwyieithog eu hunain ar gyfer yr Eisteddfod Ysgol."*

Felly, mae'r ysgol wedi gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr creadigol o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau gan gynnwys trin metel, coreograffi, cerddoriaeth, TGCh a gwneud printiau ac yn fwy diweddar artistiaid o gefndiroedd ethnig mwy amrywiol trwy eu prosiect Cynefin wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Er bod heriau ynghlwm wrth gydlynu gwaith nifer o ymarferwyr creadigol (fel yn ystod eu Prosiect Working Whispers), awgrymwyd bod gweithio gydag ymarferwyr yn rheolaidd dros amser o gymorth i ddatblygu perthnasoedd cryf.

## Gwaddol – effaith ar athrawon

O safbwynt unigol, mae Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol yn cydnabod bod prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi adfywio eu hangerdd am addysgu. Er mai gwyddoniaeth yw eu cefndir addysgu, fe wnaethant groesawu'r prosiect yn llawn a chael eu hysbrydoli o'r newydd am rôl creadigrwydd o fewn dysgu ac addysgu. Maent hefyd wedi symud ymlaen i gwblhau Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru.

---

'Mae cymryd rhan yn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi newid fy mywyd yn y modd rwy nawr yn ymdrin â phynciau ac mae wedi adfywio fy nghariad at addysgu.'

---

Er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd o brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol – yn ogystal â'r hyn a ddysgwyd o'r holl brosiectau a phartneriaethau eraill – mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau hyfforddi gyda'r hwyr i athrawon drafod dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu. Er enghraifft, edrychodd un sesiwn ar ymateb i gerddoriaeth, gan annog staff i greu ymatebion rhydd a oedd wedyn yn cael eu rhannu mewn oriel ar y diwedd. Mae grŵp athrawon MDPH y Celfyddydau Mynegiannol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith parhaus yn yr ysgol a beth arall y gellir ei gyflawni. Maent yn ceisio gwreiddio creadigrwydd mewn addysgeg ar draws yr ysgol. Maent yn ystyried sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt yn fwy creadigol.

---

'Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn ffordd wych i archwilio pynciau newydd ac i wreiddio a rhannu'r hyn a ddysgwyd, boed drwy ddrama, dawn, ffilm a'r cyfryngau, celf neu gerddoriaeth. Mae athrawon yn rhannu syniadau a bu timau Maes Dysgu a Phrofiad, yn cynnwys athrawon a Chynorthwyr Addysgu, yn helpu i ddatblygu'r arferion drwy'r ysgol gyfan.'

---

Er enghraifft, bu'r athrawon yn edrych ar ffyrdd i ddefnyddio geirfa i ysgogi creadigrwydd trwy ddefnyddio cardiau lliwiau paent (fel o siop DIY) i ddatblygu sgiliau disgrifiadol y disgyblion; draig '*amber-eyed*' a '*jade-winged*'. Mae un Cynorthwydd Addysgu yn gallu addysgu macramé i'w grwpiau dosbarth, sy'n helpu'r disgyblion i ymlacio a bod yn ystyriol. Maent yn cyflwyno eu plant mwy abl a thalentog yn flynyddol ar gyfer Criw Celf (prosiect celf ar gyfer plant mwy abl a thalentog). Maent yn defnyddio ap ChatterPix ar gyfer gweithgareddau creadigol ac yn ysgrifennu barddoniaeth fel ymateb i bynciau crefydd a'r dyniaethau.

Enghraifft arall yw'r technegau y mae athrawon yn eu defnyddio i gynorthwyo'r disgyblion i ddysgu'r gwerthoedd a'r rhinweddau Catholig. Gall geiriau fel 'proffwydol' a 'bwriadol' fod yn heriol i ddisgyblion eu deall ac felly bu'r ysgol yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol i gynhyrchu templedi bach o bobl y gall y disgyblion eu haddurno â'u syniadau eu hunain. Mae'r templedi hyn bellach o gwmpas yr ysgol ac yn rhan o lwybr gwerthoedd a rhinweddau.

Mae un o Lywodraethwyr yr ysgol wedi gallu cyflwyno'r ysgol i Goleg Celf Abertawe ac mae hyn wedi eu galluogi i gael mynediad at ffynhonnell arall o gyllid pan fydd ar gael. O ganlyniad, mae staff wedi gallu mynd ar gyrsiau i ddatblygu eu sgiliau artistig a chreadigol. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu cyrsiau ar farmori a gwneud printiau.

Mae Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol yn awyddus i chwalu mythau nad yw rhai pobl yn greadigol neu nad ydynt yn "**dda ar gelf**". Mae'r ysgol yn ceisio datblygu agwedd greadigol at y cwricwlwm ac yn annog ysgolion eraill i wneud yr un peth.

---

'Rwy wedi siarad yn ddiweddar ag ysgolion yng Nghaerfyrddin ynghylch y mentrau rwy wedi gweithio arny'n nhw o ganlyniad i fy ngwaith gyda'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ac wedi eu hannog i geisio cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru gan egluro manteision datblygu cwricwlwm celfyddydau mynegiannol creadigol.'

---

## 5. Casgliadau

Mae'r adran hon yn cloi'r canfyddiadau a drafodwyd uchod mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil trosfwaol a nodwyd yn y cyflwyniad.

### 5.1 Cwestiynau Gwerthuso ar gyfer Ysgolion

#### 1. A yw athrawon o fewn yr ysgol wedi parhau â newidiadau i'w harferion addysgu a gyflwynwyd o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol?

Mae tystiolaeth yr arolygon a'r astudiaethau achos yn awgrymu bod y cynllun wedi arwain at newid parhaus ymhlith ysgolion mewn perthynas ag arferion a dulliau addysgu sawl blwyddyn ar ôl iddynt ymwneud â'r cynllun.

Dywedodd yr ymatebwyr fod eu cyfranogiad wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar yr ysgol fel yr oedd ar y diwrnod y gwnaethant gwblhau'r arolwg. Soniodd yr ysgolion am amrywiaeth o effeithiau gan gynnwys symud oddi wrth 'dulliau traddodiadol' i arferion mwy creadigol ac awgrymwyd bod ymwneud â'r cynllun wedi rhoi'r cyfle i ddysgu ac archwilio dulliau addysgegol newydd sy'n dal i gael eu defnyddio heddiw. Roedd cymryd rhan yn y cynllun hefyd wedi helpu'r ysgolion i werthfawrogi potensial gwreiddio'r celfyddydau ar draws y cwricwlwm ac mae enghreifftiau calonogol o ble mae dulliau wedi eu gwreiddio neu'n cael eu gwreiddio ar draws yr ysgol.

Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod rôl creadigrwydd o fewn ysgolion yn newid mewn ffordd sy'n dal yn amlwg heddiw. Er enghraifft, adroddodd ysgolion eu bod yn gwneud defnydd cynyddol o ddulliau creadigol a oedd yn blaenoriaethu datblygu sgiliau datrys problemau, cydweithio, meddwl yn feirniadol ac annibyniaeth. Yn gynyddol, roedd yr ysgolion yn ceisio sicrhau bod gan ddisgyblion fwy o ymreolaeth dros eu dysgu, gan eu cynnwys yn y broses gynllunio a'u galluogi i wneud dewisiadau i bersonoli eu dysgu.

Adroddwyd hefyd am effeithiau mewn perthynas â datblygu'r gweithlu o ran staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Dywedodd ysgolion fod staff yn barod i dreialu a mabwysiadu ymagweddau creadigol o ganlyniad i'w rhan yn y cynllun. Yn nodweddiadol, cyfeiriodd ysgolion at yr hyder cynyddol ymhlith athrawon i gyflwyno mwy o gyfleoedd creadigol i wersi, treialu pethau newydd ac, i rai, camu allan o'u cylchoedd cysurus.

#### 2. A oes newidiadau wedi'u cyflwyno i'r ffordd y mae'r ysgolion yn gweithredu o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad? Os felly, beth yw'r newidiadau hynny?

Mae tystiolaeth yr arolygon a'r astudiaethau achos yn awgrymu bod y cynllun wedi galluogi'r ysgolion i wneud cynnydd mewn perthynas â mabwysiadu arferion creadigol a chynnydd yn nealltwriaeth a hyder staff fel sydd wedi'i ddisgrifio uchod. O'r herwydd, mae hyn wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y mae rhai ysgolion yn gweithredu ac at gyflwyno dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu y tu hwnt i'r rhai a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun.

Mewn ysgolion lle nad oedd effeithiau'r cynllun wedi'u cynnal, roedd y rhesymau mwyaf cyffredin am hyn yn cynnwys newid arweinyddiaeth a oedd yn golygu nad oedd yn bosibl parhau â'r gweithgaredd ac nad oedd yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen wedi'i ledaenu'n llwyddiannus a'i wreiddio ymhlith cymuned ehangach yr ysgol. Roedd tystiolaeth astudiaethau achos yn awgrymu bod y ffactorau a oedd yn bwysig ar gyfer lledaenu gwybodaeth yn llwyddiannus yn cynnwys darparu cyfleoedd hyfforddiant, dysgu a rhannu; cefnogaeth gan uwch arweinwyr a llywodraethwyr; trosiant staff isel; a phartneriaethau â'r sector ehangach.

Yn ogystal, mae tystiolaeth i awgrymu bod ymwneud â'r cynllun wedi cael dylanwad cadarnhaol ar waith cynllunio a pharatoi ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Nodwyd bod y profiad wedi bod yn werthfawr o ran darparu cyfleoedd i staff dreialu dulliau newydd a oedd yn ffafrio dulliau creadigol a dysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Yn hyn o beth, roedd y cynllun wedi cyfrannu at wella dealltwriaeth athrawon ac ysgolion o'r cwricwlwm newydd a'r ffordd y gall dulliau creadigol ategu'r broses o'i gyflwyno.

### **3. Beth fu effaith unrhyw newidiadau a nodwyd ar yr ysgolion?**

Roedd prif effeithiau'r newidiadau a nodwyd mewn ysgolion yn ymwneud â'r canlynol:

#### Hyder, gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon

Gwnaeth ymwneud â'r cynllun a chael y cyfle i gyflawni prosiectau gydag asiantau ac ymarferwyr creadigol gael effaith gadarnhaol ar hyder, gwybodaeth a sgiliau athrawon. Trwy ymgysylltu ar y cyd ag artistiaid a phobl creadigol, mae athrawon wedi ennill dealltwriaeth ddyfnach o fethodolegau creadigol, ac roedd rhai yn teimlo'n fwy hunanhyderus wrth fabwysiadu arferion addysgu arloesol ar draws y cwricwlwm.

#### Dulliau dysgu ac addysgu

Mae'r prosiect wedi arwain at newid mewn dulliau addysgu, gan annog addysgwyr i gofleidio creadigrwydd fel arf addysgegol canolog. Trwy gydweithio ag artistiaid ac ymarferwyr creadigol, mae athrawon wedi mentro y tu hwnt i ddulliau addysgu traddodiadol, gan ddod yn fwy parod i fentro ac arbrofi â thechnegau arloesol. Mae tystiolaeth i awgrymu, ymhlith rhai ysgolion, bod athrawon wedi croesawu'r pwyslais ar ddysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl a datblygiad cyfannol a hybwyd drwy'r prosiectau a gynhaliwyd ganddynt i'r graddau eu bod yn dal i lywio'r gwaith o gynllunio'r dysgu ac addysgu heddiw.

## Perthynas â'r sector celfyddydol a chreadigol

Roedd y canfyddiadau'n ymwneud â'r cysylltiadau parhaus a grëwyd rhwng ysgolion a'r sector creadigol ehangach yn gymysg, gyda'r un nifer o ysgolion wedi cynnal cysylltiad â'r asiant creadigol â nifer yr ysgolion nad oedd wedi gwneud hynny. Er hyn, mae enghreifftiau o sut mae perthnasoedd a ddatblygwyd trwy'r cynllun wedi arwain at amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau dilynol. Roedd y partneriaethau a ffurfiwyd yn amrywiol ac amlygodd yr ymchwil enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion ac amrywiaeth o sefydliadau (o grwpiau cymunedol i sefydliadau addysg uwch) yn cwmpasu meysydd amrywiol fel bale, adrodd storïau, pypedwaith, barddoniaeth, a mwy.

## 5.2 Cwestiynau Gwerthuso ar gyfer Artistiaid ac Ymarferwyr Creadigol

### 4. A yw artistiaid wedi newid/addasu eu harferion gwaith mewn ffordd barhaus o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ymyriad hwn? Os felly, sut?

Yn gyffredinol, mae cyfranogiad artistiaid ac ymarferwyr creadigol yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi arwain at effeithiau cadarnhaol a pharhaus ar eu harferion. Disgrifiodd yr ymatebwyr ystod o fanteision a brofwyd ganddynt o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y cynllun:

#### Datblygu sgiliau a hyder

Soniodd rhai artistiaid am welliannau mewn sgiliau, hyder, a dealltwriaeth o fethodolegau addysgol, yn enwedig o ran gweithio gydag ysgolion. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar eu hymarfer creadigol, ac roedd rhai artistiaid yn cydnabod ymdeimlad newydd o hunan-ddilysiad yn eu rolau fel ymarferwyr creadigol.

#### Gwerth gweithio gydag ysgolion ac athrawon

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod gwerth cydweithio gydag ysgolion ac athrawon. Fe wnaeth y cynllun eu helpu i ddeall y cwricwlwm a'r ffyrdd y mae ysgolion yn gweithredu yn well, gan alluogi iddynt wneud addasiadau i'w dulliau gweithredu i gyd-fynd ag anghenion yr ysgolion. Cawsant y profiad o feithrin arferion creadigol i gefnogi'r dysgu yn werth chweil ac yn foddhaus.

#### Parhau i ymgysylltu â'r ysgolion

Parhaodd cyfran o'r artistiaid i weithio gydag ysgolion ar ôl cymryd rhan yn y cynllun. Roedd y parhad hwn yn fwy tebygol yn achos y rhai a oedd eisoes yn ymwneud ag ysgolion cyn y cynllun. Nodwyd bod cyfyngiadau cyllidebol ac i ba raddau yr oedd cyllid allanol ar gael yn dylanwadu ar allu ysgolion i ymgysylltu ag artistiaid ac ymarferwyr creadigol.

### Newidiadau yn yr arlwy

Cyfeiriodd tua hanner yr artistiaid at newidiadau yn eu hymarfer neu "arlwy" i ysgolion ar ôl iddynt gymryd rhan. Roedd hyn yn cynnwys mwy o hyder i gyflwyno ystod ehangach o weithgareddau a gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd.

### Dealltwriaeth o'r cwricwlwm

Gwnaeth y cynllun wella dealltwriaeth artistiaid o'r cwricwlwm newydd a'r rôl y mae ymarferwyr creadigol yn ei chwarae wrth gynorthwyo i'w gyflwyno. Roedd hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth o sut mae ymarferwyr creadigol proffesiynol yn cyfrannu at y cwricwlwm a sut y gallant chwarae rhan gadarnhaol mewn ysgolion.

### Rhwydweithio

Dywedodd rhai ymatebwyr fod gwell cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio o fewn y sector creadigol. Er nad oedd hyn mor gyffredin, roedd cyfran o artistiaid ag unigolion wedi ymwneud â sefydliadau newydd oherwydd eu cyfranogiad yn y cynllun, gan ehangu eu rhwydweithiau creadigol.

Er hyn, gwnaeth rhai artistiaid wynebu heriau wrth weithio gydag ysgolion, gan gynnwys lefelau amrywiol o gymhelliant, amserlennu anhyblyg, a lefelau gwahanol o ymrwymiad ymhlith athrawon a staff. Nodwyd bod rheoli disgwyliadau ysgolion a chanolbwyntio ar ddysgu creadigol yn hytrach na chanlyniadau yn unig yn rhwystrau.

## **5. Beth fu effaith unrhyw newidiadau a nodwyd ar yr artistiaid dan sylw?**

Mae cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith nodedig o gadarnhaol a pharhaus ar lawer o'r artistiaid a'r ymarferwyr creadigol a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae eu profiadau yn adlewyrchu ystod o newidiadau, gan gynnwys sgiliau uwch, mwy o hyder, a dealltwriaeth ddyfnach o gyflawni mewn cyd-destun addysgol. I rai, roedd y cynllun yn dilysu eu hunaniaeth fel ymarferwyr creadigol gan eu hysbrydoli i barhau i ddatblygu eu hymarfer mewn ysgolion. Roedd cydweithio ag ysgolion ac athrawon wedi darparu dealltwriaeth werthfawr o brosesau addysgol a sut i gymhwyso eu harferion creadigol i'r broses o ddysgu ac addysgu. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at well cyfleoedd rhwydweithio o fewn y sector creadigol a arweiniodd, mewn rhai achosion, at brosiectau na fyddent wedi eu cynnal fel arall.

# Atodiadau

## Ymatebion Arolwg Ysgolion

### Y rhanbarth lle mae'r ysgolion a ymatebodd wedi'u lleoli

Tabl 1: Lleoliad yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg

Y rhanbarth lle mae'r ysgol wedi'i lleoli	Ymatebion i'r Arolwg	%
Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)	10	22.2%
Gorllewin Cymru (Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot)	19	42.2%
Canol De Cymru (Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful)	9	20.0%
De-ddwyrain Cymru (Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent)	7	15.6%

Sylfaen = 45

### Y math o ysgolion

Tabl 2: Y math o ysgolion a ymatebodd i'r arolwg

Y math o ysgol	Nifer	Canran
Cynradd	21	62.2%
Uwchradd	12	26.7%
Cynradd ac uwchradd	2	2.4%
Arbennig	3	6.6%

Sylfaen = 45

### Rôl yr ymatebwyr yn yr ysgol

Roedd y sampl yn cynnwys ymatebwyr sydd â'r rolau canlynol yn yr ysgol<sup>11</sup>:

- Pennaeth (n=9)
- Pennaeth cynorthwyol / dirprwy bennaeth (n=14)
- Athro arweiniol o ryw fath (n=9)
- Athro (n=15)

Dywedodd pob un o'r 45 o ymatebwyr eu bod yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ysgol fel rhan o'r cynllun, a dim ond un ymatebydd a ddywedodd nad oedd yn aelod o staff yr ysgol ar y pryd. Dywedodd 27 o'r 45 o ymatebwyr (60%) mai nhw oedd Cydlynnydd yr Ysgol ar gyfer y cynllun.

<sup>11</sup> Noder y dywedodd rhai ymatebwyr fod ganddynt fwy nag un rôl.



## Ymatebion Arolwg Artistiaid

### Nifer yr Ysgolion

Nifer yr ysgolion y bu'r ymatebwyr yn gweithio gyda nhw yn ystod Cylchoedd 1 (2015-17) a 2 (2016-18) y cynllun.

Tabl 3: Nifer yr ysgolion y bu'r ymatebwyr yn gweithio gyda nhw

Categori	N	Canran
1-2	30	39.5%
3-5	33	43.4%
6-7	8	10.5%
8-9	1	1.3%
10 neu fwy	4	5.3%

Sylfaen: 76

### Y rhanbarth lle mae'r ysgolion wedi'u lleoli

Tabl 4: Lleoliad yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg\*

Rhanbarth	N	Canran
Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)	21	27.3%
Gorllewin Cymru (Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot)	27	35.1%
Canol De Cymru (Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful)	33	42.9%
De-ddwyrain Cymru (Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent)	17	22.1%

Sylfaen: 77 \*ymatebion lluosog yn bosibl

### Rôl yr ymatebwyr

Tabl 5: Rôl y bobl yn y cynllun\*

Ymateb	N	Canran
Ymarferydd Creadigol	54	70.10%
Asiant Creadigol	43	55.80%

Sylfaen: 77 \*ymatebion lluosog yn bosibl

## Cysylltu â ni



0330 122 8658



[wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)



[wavehill.com](http://wavehill.com)

Dilynwch ni ar ein cyfryngau  
cymdeithasol



[@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



[wavehill](https://www.linkedin.com/company/wavehill)